
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Cyllid Seilwaith 2025 – 2026



llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2024
WG51210 ISBN digidol 978-1-83715-076-2

# Cynnwys

Pennod 1: Cyd-destun Strategol ac Ariannol .... 2
Pennod 2: Tai .... 7
Pennod 3: Trafnidiaeth .... 14
Pennod 4: Adfywio .... 18
Pennod 5: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol .... 21
Pennod 6: Datgarboneiddio .... 24
Pennod 7: Natur a’r Amgylchedd .... 28
Pennod 8: Datblygu Economaidd .... 33
Pennod 9: Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon .... 43
Pennod 10 : Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd .... 49
Pennod 11 : Cymunedau .... 52
Pennod 12 : Llywodraeth Leol .... 54
Pennod 13 : Llifogydd a Dŵr .... 55
Pennod 14 : Addysg .... 58
Pennod 15 : Gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru .... 60

# Pennod 1: Cyd-destun Strategol ac Ariannol

## Trosolwg

1.1 Fe wnaethom gyhoeddi’r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ym mis Rhagfyr 2021. Mae’n nodi’r canlyniadau y dylai buddsoddiad mewn seilwaith yng Nghymru eu cyflawni dros gyfnod o 10 mlynedd.

1.2 Roedd y Strategaeth yn ein hymrwymo i ddatblygu cyfres o Gynlluniau Cyllid Seilwaith i roi’r strategaeth ar waith. Dyma ein hail Gynllun Cyllid Seilwaith ac mae’n dyrannu dros £3bn o gyllid cyfalaf i gefnogi ein cynlluniau seilwaith dros flwyddyn y gyllideb. Mae hefyd yn nodi’r buddsoddiadau rydyn ni’n eu cynllunio mewn seilwaith cyhoeddus a fydd yn cael eu cyflawni drwy ein rhaglenni wedi’u hariannu gan adnoddau dros yr un cyfnod.

## Y Rhaglen Lywodraethu

1.3 Roedd y Rhaglen Lywodraethu’n amlinellu’r ymrwymiadau uchelgeisiol byddwn yn eu cyflawni yn ystod tymor y Senedd hon i fynd i’r afael â’r heriau rydyn ni’n eu hwynebu ac i wella bywydau pobl ar hyd a lled Cymru. Bydd y meysydd buddsoddi yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn ei gwneud hi’n bosibl cyflawni ystod eang o ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu. O gynnal a chadw ac uwchraddio ein ffyrdd, i ddatgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy waith ôl-osod, mae’r meysydd buddsoddi yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn ddull hanfodol o gyflawni’r weledigaeth o Gymru fwy teg, fwy gwyrdd a mwy llwyddiannus y mae’r Rhaglen Lywodraethu yn ei chreu.

1.4 Mae rhai o ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu yn ymwneud â meysydd penodol o fuddsoddiad mewn seilwaith, ac mae eraill yn ymrwymiadau ehangach lle gall ein buddsoddiad mewn seilwaith chwarae rôl alluogi. Ar gyfer y ddau fath o ymrwymiadau, mae’r Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn nodi’r rôl sydd gan bob maes buddsoddi o ran cyflawni’r ymrwymiadau a sefydlwyd drwy’r Rhaglen Lywodraethu.

## Buddsoddiad o dan y Cynllun Cyllid Seilwaith blaenorol (yn cwmpasu cyfnod setliad cyllideb o 2022-23 i 2024-25)

1.5 Mae seilwaith yn rhywbeth hirdymor – bydd y penderfyniadau buddsoddi sy’n cael eu gwneud heddiw yn effeithio ar fywyd a bywoliaeth dinasyddion Cymru am ddegawdau. Felly, mae’r buddsoddiadau mewn seilwaith rydyn ni’n eu cynllunio yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn adeiladu ar ein buddsoddiadau mewn seilwaith o dan y Cynllun Cyllid Seilwaith 2022-23 i 2024-25, a byddant yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar ein gwaith o ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru. Er enghraifft, rydyn ni wedi buddsoddi dros £1.3bn yn ein seilwaith cyflawni craidd y GIG. Mae’r buddsoddiad parhaus, sylweddol hwn yn berthnasol i adeiladau, seilwaith digidol, cyfarpar a cherbydau, a hefyd i welliannau clinigol, cynlluniau trawsnewid a chamau gweithredu i ddatgarboneiddio ystad y GIG, a fydd yn ein caniatáu i ddarparu gwasanaethau yn fwy economaidd ac effeithlon.

1.6 Rydyn ni'n gwybod bod byw'n dda mewn cartref o ansawdd da yn creu amrywiaeth eang o fuddion, sy'n cefnogi ein blaenoriaethau ehangach o ran gwella canlyniadau iechyd, llesiant a ffyniant, a'r angen i bontio i sero net. Cartrefi cynhwysol a hygyrch o ansawdd da yw conglfeini cymunedau da, a'r sylfaen i unigolion a theuluoedd allu ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau. I gydnabod hyn, rydyn ni wedi buddsoddi dros £2bn – mwy nag erioed o'r blaen – yn ein rhaglenni tai dros dymor y Senedd hon. O ganlyniad, mae ein cyfraddau cyflawni o ran tai fforddiadwy ymysg yr uchaf ers 2007, pan gafodd y data hwn ei gasglu am y tro cyntaf.

1.7 O dan y Cynllun Cyllid Seilwaith blaenorol, roeddem wedi buddsoddi dros £1bn yn seilwaith addysg Cymru, wedi'i hwyluso o dan ymbarél ein Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Cafodd y ffrydiau buddsoddi seilwaith ar gyfer y Gymraeg (Cymraeg 2050), Digidol, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Ysgolion Bro, Prydau Ysgol am Ddim i Bawb mewn Ysgolion Cynradd, Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar eu cyflawni'n strategol, ochr yn ochr â'r Rhaglen graidd. Mae'r dull trawsbynciol hwn o gyflawni yn sbarduno cydweithredu ar lefel leol, ac yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol. Yn ogystal â hynny, mae gwasanaethau mwy effeithlon a gwerth am arian yn cael eu sicrhau drwy ddatblygu, caffael, darparu a gweithredu'n gydlynol.

1.8 Fel rhan o'n dull o fynd i'r afael â'r risgiau mae llifogydd yn eu hachosi ledled Cymru ac i gefnogi ein nod o leihau'r risg o lifogydd i 45,000 o gartrefi erbyn diwedd tymor y Senedd hon, rydyn ni wedi buddsoddi dros £225m mewn mesurau lliniaru llifogydd. Yn ogystal, gwnaethom gefnogi awdurdodau leol i fuddsoddi mewn gwaith amddiffyn arfordirol sylweddol drwy'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.

1.9 Mae ansawdd aer gwael yn gysylltiedig ag amrywiaeth o effeithiau ar iechyd, gan gynnwys salwch cardiofasgwlaidd ac anadlol, a gostyngiad mewn disgwyliad oes. O dan y Cynllun Cyllid Seilwaith blaenorol, roeddem wedi sicrhau bod dros £10m ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer astudiaethau dichonoldeb a chostau darparu cynlluniau seilwaith i leihau amlygiad y cyhoedd i allyriadau cerbydau sy'n llygru.

1.10 Rydyn ni wedi buddsoddi dros £18m yn ein rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru. Mae'r Goedwig Genedlaethol yn ymrwymiad hirdymor a hyd yma, mae ein buddsoddiad wedi helpu i greu rhwydwaith o goetiroedd ledled Cymru a fydd yn fannau ar gyfer hamdden a natur, yn helpu i ddal a storio carbon, ac yn darparu coed fel adnodd adeiladu cynaliadwy.

1.11 Rydyn ni wedi buddsoddi dros hanner biliwn yn ein rhwydwaith ffyrdd strategol, sy'n cynnwys buddsoddiad cynnal a chadw a phrosiectau gwella mawr. Rydyn ni wedi buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus hefyd. Mae dros £700m wedi cael ei fuddsoddi yn rhaglen trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, ac mae gwelliannau i seilwaith bysiau, teithio llesol a seilwaith ehangach wedi cael eu gwneud i integreiddio trafnidiaeth ar hyd a lled Cymru.

## Y cyllid sydd ar gael

### *Grant Bloc*

**1.12** Rydyn ni wedi cael setliad blwyddyn gan Lywodraeth y DU. Felly, mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn amlinellu ein meysydd buddsoddi arfaethedig mewn seilwaith am flwyddyn yn unig, gan ddyrannu dros £3bn mewn cyllid cyfalaf am y tro cyntaf yng ngham y Gyllideb Ddrafft. Fodd bynnag, rydyn ni'n cyhoeddi'r Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn dilyn cyfnod estynedig o setliadau ariannol heriol i Gymru. Ynghyd ag effaith y lefelau chwyddiant uchaf iawn yn ystod tymor y Cynllun Cyllid Seilwaith blaenorol, mae pwysau o hyd ar draws y meysydd buddsoddi yn y Cynllun hwn. Ond mae'r cynnydd termau real yn ein setliad cyfalaf cyffredinol 2025-26 o'i gymharu â'r sefyllfa cyn Cyllideb yr Hydref 2024-25 – sydd 10 gwaith yn uwch na'r twf blynyddol cyfartalog yn y cyllid cyfalaf a oedd ar gael dros y 14 mlynedd ddiwethaf – yn rhoi gobaith inni ar gyfer y dyfodol, gan ein galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau'n well a buddsoddi mwy yn y seilwaith sydd ei angen i wireddu uchelgeisiau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

**1.13** Rydyn ni'n disgwyl setliadau amlflwyddyn ar gyfer adnoddau a chyfalaf wedi i Adolygiad o Wariant y DU ddod i ben yn hanner cyntaf 2025, a fydd yn rhoi sicrwydd mawr ei angen i ni ac i'n partneriaid er mwyn cynllunio ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn y dyfodol.

### *Cyfalaf Trafodiadau Ariannol*

**1.14** We continue to maximise our existing portfolio of Financial Transaction Capital (FTC). For 2025-26 we will receive £85.3m of FTC from the UK Government, and we also expect to receive a further £42.4m of repayments from previous investments. We will use this to invest more than £127m in a variety of infrastructure programmes including supporting businesses and the housing sector, benefitting many parts of our society and economy.

### *Benthyca Cyfalaf*

**1.15** Mae'r dyraniadau i'r meysydd buddsoddi yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn adlewyrchu'r defnydd gorau posibl o'n capasiti benthyca, gan ein galluogi i ariannu rhagor o fuddsoddiadau mewn seilwaith. Byddai defnyddio'r proffil benthyca yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 yn arwain at gost refeniw ychwanegol o £10.4m y flwyddyn ar gyfartaledd i dalu am y benthyca.

### *Buddsoddi mewn Seilwaith gydag Arian Adnoddau*

**1.16** Er bod y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn adlewyrchu dyfarniadau cyllideb cyfalaf Cyllideb Ddrafft 2025-26, rydyn ni'n parhau i ariannu ystod o fuddsoddiadau mewn seilwaith drwy gynlluniau wedi'u hariannu gan adnoddau, sy'n creu gwerth cyfalaf sylweddol.

**1.17** Mae ein Model Buddsoddi Cydfuddiannol a ariennir yn breifat yn parhau i gyflawni adrannau 5 a 6 o brosiect deuoli'r A465, Band B ein rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a Chanolfan Ganser newydd Felindre yng

Nghaerdydd. Gyda'i gilydd, mae cyfanswm gwerth cyfalaf cyfunol y tri chynllun hyn yn fwy nag £1.4bn.

**1.18** Bydd y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol newydd ar gyfer Rheoli Priffyrdd yn galluogi awdurdodau lleol i hunan-ariannu £60m o fuddsoddiad cyfalaf i drwsio ffyrdd lleol.

## Buddsoddiadau Llywodraeth y DU

**1.19** O dan y Cynllun Cyllid Seilwaith blaenorol, roeddem wedi buddsoddi £65m mewn diogelwch tomenni glo. Fe wnaethom gais llwyddiannus am £25m o gyllid tuag at y buddsoddiad hwn gan Lywodraeth y DU yn 2025-26 fel rhan o'i Chyllideb yr Hydref ar gyfer y DU. Bydd y cyllid ychwanegol hwn gan Lywodraeth y DU yn helpu i liniaru risgiau'r tomenni hyn ac yn ein galluogi i ehangu'r grant diogelwch tomenni glo er mwyn inni allu cyflymu'r gwaith ar domenni yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr bod anghenion Cymru yn y blynyddoedd i ddod yn cael eu hystyried yn llawn.

**1.20** Rydyn ni'n parhau i fuddsoddi mewn cefnogi bargeinion dinesig a thwf, ochr yn ochr ag £88m o gyllid cyfalaf wedi'i glustnodi gan Lywodraeth y DU ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae'r cymorth hwn yn arwydd o'r buddsoddiad trawsnewidiol parhaus ledled Cymru i ddarparu swyddi crefftus, cynaliadwy a seilwaith i gymunedau ar hyd a lled y wlad.

## Cynlluniau Buddsoddi

### Canlyniadau

| Amgylcheddol | | Cymdeithasol | | Economaidd | | Diwylliannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.Datgarboneiddio a lleihau nwyon tŷ gwydr | Datgarboneiddio | 5. Gwella a diogelu iechyd corfforol, diogelwch a llesiant pobl Cymru | Lles Corfforol | 9. Cymorth i godi lefelau cyflogaeth ledled Cymru | Cyflogaeth | 13. Gwella mynediad at y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni | Y Gymraeg |
| 2. Buddsoddi mewn Bioamrywiaeth a Chyfalaf Naturiol | Bioamrywiaeth | 6. Gwella a diogelu iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru | Lles Meddyliol | 10. Cymorth i wella cynhyrchiant busnesau | Cynhyrchiant Busnesauau | 14. Hybu mynediad at weithgareddau diwylliannol a chyfranogiad ynddynt, gan gynnwys y celfyddydau a threftadaeth | Gweithgareddau Diwylliannol |
| 3. Gwella ansawdd aer a dŵr | Ansawdd Aer a Dŵr | 7. Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol | Anghydraddoldeb Cymdeithasol | 11. Cynyddu incwm gwirioneddol aelwydydd | Incwm Aelwydydd | 15. Codi lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden | Chwaraeon |
| 4. Lleihau defnyddio adnoddau naturiol mewn modd anghynaliadwy | Defnydd Anghynaliadwy | 8. Gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol | Gwasanaethau Allweddol | 12. Gwella canlyniadau addysgol | Gwella Deilliannau Addysgol | 16. Gwella'r buddsoddiad mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru | Buddsoddi yng Nghymru |

**1.21** Mae pob un o'r canlyniadau strategol yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru wedi'u trefnu o dan y pedwar maes llesiant. Mae'r canlyniadau hynny'n seiliedig ar amrywiaeth o gamau buddsoddi. Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn dangos bod gan y meysydd buddsoddi yn y Cynllun y potensial i gyflawni

amrywiaeth o ganlyniadau ar draws y meysydd, ac mae gan bob un rôl i'w chwarae yn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

1.22 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif gamau y mae ein buddsoddiad ym mhob maes buddsoddi yn eu cyflawni. Er nad oes bwriad i'r prif gamau hyn fod yn rhestr gynhwysfawr, maen nhw'n dangos y llu o ganlyniadau y mae ein buddsoddiadau'n cyfrannu atynt. Rydyn ni hefyd yn cysylltu'r buddsoddiadau â'r ymrwymiad perthnasol yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn cydnabod y rôl y mae'r buddsoddiad yn ei chwarae yn cyfrannu at ein targedau sero net.

1.23 Mae'r Atodiad i'r ddogfen hon yn cynnwys map canlyniadau manwl, sy'n crynhoi sut mae'r buddsoddiadau a wneir drwy'r ddogfen hon yn cyflawni yn erbyn yr ystod o ganlyniadau strategol yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

# Pennod 2: Tai

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---:|
| Diogelwch Adeiladu | 127,670 |
| Datgarboneiddio Cartrefi Cymru | 203,000 |
| Cymorth Prynu | 4,000 |
| Cronfa Tai â Gofal ac Addasiadau | 85,500 |
| Tai'r Farchnad Agored | 82,000 |
| Y Sector Rhentu Preifat | 3,500 |
| Tai Cymdeithasol | 452,122 |
| **Cyfanswm y Sector Tai** | **957,792** |

## Diogelwch Adeiladau

| | |
|---|---|
| Iechyd Meddwl | Bydd ein buddsoddiad mewn rhaglenni diogelwch adeiladau yn diogelu ac yn gwella iechyd a llesiant meddyliol pobl sy'n byw mewn adeiladau uchel iawn |
| Iechyd Corfforol | Bydd ein buddsoddiad mewn rhaglenni diogelwch adeiladau yn diogelu ac yn gwella iechyd a llesiant corfforol pobl sy'n byw mewn adeiladau uchel iawn |
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Bydd ein buddsoddiadau'n sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da |

**2.1** Rhaglen Adfer Diogelwch Adeiladau Cymru'n mynd i'r afael â phroblemau o ran diogelwch tân mewn tai uchel iawn a chanolig (adeiladau preswyl dros 11 metr o uchder). I ddechrau, mae'r gronfa wedi cefnogi gwaith arolygu i nodi problemau o ran diogelwch tân fel cladin nad yw'n cydymffurfio, adrannu a gosod systemau atal tân, gwagio a rhybuddio. Mae'r gwaith wedi'i anelu at adeiladau dros 11m o uchder yn y sectorau preifat a chymdeithasol. Mae ail gam Rhaglen Adfer Diogelwch Adeiladau Cymru'n cefnogi gwaith i fynd i'r afael â phroblemau o ran diogelwch tân, gan roi cymorth ariannol i wneud hyn mewn adeiladau preswyl dros 11 metr o uchder. Mae llwybr adfer ar gyfer pob adeilad yng Nghymru.

**2.2** Ar hyn o bryd, mae 407 o adeiladau yn y rhaglen. Mae gwaith wedi cael ei gwblhau ar 67 o adeiladau (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol). Mae gwaith yn mynd rhagddo ar 103 o adeiladau. Mae cynlluniau wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer 151 o adeiladau eraill. Rydyn ni wedi cael gwybod nad oes angen unrhyw waith diogelwch tân ar saith adeilad, ac rydyn ni'n aros am y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau ar gyfer y 79 adeilad sy'n weddill.

**2.3** Mae'r rhaglen hon yn cyflawni'n uniongyrchol yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wella diogelwch adeiladau er mwyn i bobl deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi drwy greu cronfa diogelwch tân i gartrefi sy'n bodoli eisoes.

**2.4** Rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith i adfer pob adeilad cymwys yng Nghymru. Mae hon yn rhaglen hirdymor ac wrth inni gael mwy a mwy o ddealltwriaeth o anghenion adfer yr adeiladau yn y rhaglen, rydyn ni'n gallu proffilio'r gyllideb yn fwy cywir i gyd-fynd â'r proffil gwario. Felly, mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 wedi neilltuo £127.67m i'r rhaglen i ddechrau.

### Datgarboneiddio Cartrefi Cymru

| | |
|---|---|
| Datgarboneiddio | Rhaid i fuddsoddiad newydd yn y stoc tai cymdeithasol gyflawni'r targedau yn Cymru Sero Net |
| Datgarboneiddio | Byddwn yn buddsoddi mewn datgarboneiddio cartrefi sy'n bodoli eisoes drwy fesurau ôl-osod |
| Anghydraddoldeb Cymdeithasol | Bydd ein buddsoddiadau'n sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da |

**2.5** Mae ein huchelgais i ddatgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy fesurau ôl-osod wedi'i nodi'n glir yn y Rhaglen Lywodraethu, ac rydyn ni wedi neilltuo £203m yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 i barhau i wella a datgarboneiddio stoc tai cymdeithasol Cymru.

**2.6** Yn 2020, roedd cartrefi Cymru yn cynhyrchu tua 11% o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol ac yn defnyddio 27% o'r holl ynni a ddefnyddiwyd yng Nghymru Bydd y cyllid hwn yn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi i leihau eu hallyriadau carbon, er mwyn helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni targedau carbon sydd wedi'u rhwymo mewn cyfraith, yn ogystal ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatgarboneiddio cartrefi preswyl. Bydd ein strategaeth a'n buddsoddiad yn blaenoriaethu tai cymdeithasol, yn dangos yr arferion gorau, ac yn datblygu cadwyni cyflenwi a sgiliau a fydd yn ysgogi'r farchnad, ac yn llywio strategaeth rhaglenni ôl-osod ar gyfer cartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Bydd yn mynnu bod landlordiaid cymdeithasol, eu tenantiaid, busnesau bach a chanolig, cyrff cyllido a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cydweithio i sicrhau canlyniadau sy'n fuddiol i bawb

**2.7** Bydd y cyllid yn helpu landlordiaid cymdeithasol i wneud yn siŵr bod eu tai'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru 2023. Mae'r Safon hon yn amlinellu'r safon ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol, gan wneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd yr ansawdd uchaf posibl a bod modd eu gwresogi'n fforddiadwy. Mae ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio'n parhau i fuddsoddi mewn datgarboneiddio tai cymdeithasol, gan fabwysiadu dull profi a dysgu i lywio'r gwaith ôl-osod tymor hirach ar gyfer pob cartref, ar draws pob math o ddeiliadaeth. Bydd buddsoddiad parhaus yn rhoi hwb i ffyniant lleol drwy dwf busnesau bach a chanolig a datblygiad cadwyni cyflenwi, ac yn cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth a'r arferion gorau.

### Cymorth Prynu

| | |
|---|---|
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Bydd ein buddsoddiadau'n sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da |
| Buddsoddi yng Nghymru | Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt |

**2.8** Mae ein cynllun Cymorth Prynu yn helpu pobl i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain drwy rannu ecwiti, ac mae ar gael ar gyfer cartrefi presennol. Mae'r cynllun yn gynllun llwyddiannus sydd wedi cael ei gynnig, ar raddfa fach, ers

blynyddoedd lawer, ac mae'n boblogaidd mewn ardaloedd gwledig, lle nad yw cartrefi a adeiledir o'r newydd ar gael yn rhwydd.

**2.9** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad yn glir i fynd i'r afael â fforddiadwyedd mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o ail gartrefi. Mae Cymorth Prynu yn rhan greiddiol o'n hymateb, ac mae'n unigryw o ran ei fod yn cynnig cymorth i brynu tai sydd eisoes ar y farchnad, yn hytrach na chartrefi a adeiladir o'r newydd. Mae Cymorth Prynu yn rhan o becyn i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd drwy dargedu a theilwra rhaglenni tai presennol

**2.10** Mae'r cynllun yn cynnig cymorth o 30–50% o bris prynu cartref, ac fe gaiff ei ad-dalu pan fydd yr eiddo'n cael ei werthu. Mae'n agored i bawb, ac yn cael ei reoli gan awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a all osod gofynion ychwanegol ar ymgeiswyr, megis yr angen am gyswllt lleol. Felly, ystyrir bod y cynllun yn allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith o liniaru materion fforddiadwyedd mewn rhai cymunedau, sy'n aml yn waeth yn sgil y niferoedd uchel o ail gartrefi. Fel rhan o gynllun peilot 'Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd' Dwyfor, gan weithio gyda Chyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin, rydym wedi addasu'r cynllun Cymorth Prynu i ystyried amgylchiadau lleol – fel y gellir cefnogi pobl leol gyda 10-50% ar gyfer eiddo gwerth hyd at £300,000 (neu, gyda disgresiwn mewn ardaloedd hynod anfforddiadwy, hyd at £350,000). Mae hyn wedi golygu, hyd yma, bod 25 o geisiadau wedi'u cymeradwyo yn Nwyfor – o'i gymharu ag un pryniant wedi'i gwblhau yn y pum mlynedd cyn y cynllun peilot.

**2.11** Mae'r cynllun Cymorth Prynu yn mynd ati'n bennaf i gefnogi pobl sy'n dymuno prynu cartref presennol yn eu cymuned eu hunain, ond sydd heb yr adnoddau ariannol llawn i wneud hynny, felly, mae'n cefnogi pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

**2.12** Gan adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol, mae Cyllideb ddrafft 2025-26 yn ymrwymo i fuddsoddi £4m mewn cynlluniau Cymorth Prynu, yn dibynnu ar amodau'r farchnad.

## Cronfa Tai â Gofal ac Addasiadau

| | |
|---|---|
| Iechyd Corfforol | Byddwn yn buddsoddi mewn tai a llety arloesol i fodloni anghenion gofal |
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Bydd ein buddsoddiadau'n sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da |
| Buddsoddi yng Nghymru | Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt |

**2.13** Mae helpu pobl ag anghenion gofal uwch i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach yn flaenoriaeth allweddol i'r llywodraeth hon. Mae hyn wedi'i danlinellu gan ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu tai arloesol i fodloni anghenion gofal plant sydd ag anghenion cymhleth, pobl hŷn a phobl sydd ag anabledd corfforol neu ddysgu. Rydyn ni wedi dyrannu £85.5m yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 i gefnogi prosiectau tai, iechyd a gofal

**2.14** Cafodd y Gronfa Tai â Gofal ei sefydlu i gynyddu'r stoc tai i fodloni anghenion pobl ag anghenion gofal a chymorth, ac i ddarparu lleoliadau gofal canolraddol yn y gymuned er mwyn i bobl y mae angen gofal a chymorth adsefydlu arnynt allu mynd yn ôl i fyw'n annibynnol neu gynnal yr annibyniaeth sydd ganddynt. Mae'r Gronfa'n adeiladu ar y Gronfa Gofal Integredig flaenorol, a gafodd ei darparu gennym o dan y Cynllun Cyllid Seilwaith blaenorol.

**2.15** Mae'r Gronfa Tai â Gofal yn rhaglen atal. Ei nod yw lleihau'r galw am ofal preswyl hirdymor, y costau sy'n gysylltiedig â mynd i'r ysbyty a lleoliadau drud, a darparu atebion sy'n seiliedig ar lety i fodloni anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Yn ystod y cam adeiladu, mae buddsoddiadau'r Gronfa Tai â Chymorth yn rhoi hwb i dwf economaidd drwy greu a diogelu swyddi, a chefnogi prentisiaethau, busnesau lleol a chadwyni cyflenwi. Rhaid i gynlluniau'r Gronfa Tai â Chymorth ystyried ein polisïau ar gyfer creu lleoedd a'n polisi Canol Trefi yn Gyntaf, a hybu teithio llesol.

**2.16** Drwy ein rhaglen addasiadau, byddwn yn addasu cartrefi pobl hŷn a phlant ac oedolion anabl i wella eu hiechyd a'u llesiant. Mae amgylchedd cartref mwy hygyrch yn gwella annibyniaeth, yn lleihau risgiau ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar gymorth. Mae addasu cartrefi yn gallu atal cwympiadau, lleihau derbyniadau i'r ysbyty a hwyluso'r broses o ryddhau cleifion, lleihau'r ddibyniaeth ar ofal, osgoi'r angen i symud i ofal preswyl, a gwella ansawdd bywyd a llesiant unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn sylweddol.

**2.17** Rydyn ni'n ariannu nifer o gynlluniau grant i addasu cartrefi o dan y Rhaglen Addasiadau Brys, ac yn rhoi cyfalaf i awdurdodau lleol er mwyn darparu Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl. Drwy'r sector Gofal a Thrwsio, nod y Rhaglen Addasiadau Brys yw addasu'n gyflym, yn bennaf i osgoi gorfod derbyn pobl i'r ysbyty a'i gwneud hi'n bosibl rhyddhau cleifion o'r ysbyty, a lleihau'r oedi wrth drosglwyddo gofal; mae'r Grant Addasiadau Ffisegol i gymdeithasau tai traddodiadol yn lleihau'r pwysau ar Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl awdurdodau lleol; ac mae'r grant Galluogi yn helpu awdurdodau lleol i ddarparu addasiadau bach a chanolig yn gyflym heb orfod defnyddio prawf modd y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl, sy'n gymhleth ac yn cymryd amser.

**2.18** Yn yr un modd â chynlluniau tai cymdeithasol eraill, mae'r Gronfa Tai â Chymorth a'n rhaglenni addasu hefyd yn ategu ein hymrwymiad i gyrraedd Sero Net erbyn 2050, oherwydd bydd pob adeilad newydd yn gorfod cyrraedd safonau newydd beiddgar i sicrhau cartrefi fforddiadwy cynaliadwy drwy effeithlonrwydd ynni a lleihau'r ddibyniaeth ar losgwyr tanwydd ffosil.

## Tai'r Farchnad Agored

| | |
|---|---|
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Bydd ein buddsoddiadau'n sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da |
| Buddsoddi yng Nghymru | Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt. |

**2.19** Drwy gefnogi pobl sy'n dymuno bod yn berchen ar eu cartref eu hunain, ond sydd angen cymorth ariannol i wneud hynny, mae ein hymyriadau o ran Tai'r

Farchnad Agored yn gwneud cyfraniad allweddol i fynd i'r afael ag anghenion o ran tai yng Nghymru, yn ogystal â rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu tai a'r cadwyni cyflenwi cysylltiedig.

**2.20** Mae Cymorth i Brynu - Cymru yn cynnig benthyciad rhannu ecwiti sydd ar gael ar gyfer cartrefi a adeiledir o'r newydd hyd at uchafswm gwerth o £300k. Mae Rydym wedi ymrwymo i barhau â chynllun Cymorth i Brynu - Cymru tan ddiwedd tymor y Senedd gyda £57m o gyllid Cyfalaf Trafodiadau Ariannol wedi'i nodi i helpu i ymestyn hyn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Cymru'r Dyfodol a symud i'r farchnad perchnogaeth breifat yn helpu i leihau'r pwysau ar y sectorau rhentu Cymdeithasol a Phreifat. Gall pawb sy'n datblygu tai o'r newydd ymuno â chynllun Cymorth i Brynu - Cymru sydd ar gael ledled Cymru.

**2.21** Mae benthyciadau o hyd at 20% o werth yr eiddo ar gael i gwsmeriaid cymwys sy'n prynu cartrefi hyd at uchafswm gwerth o £300k. Caiff y benthyciad ei ad-dalu pan fydd cwsmeriaid yn ad-dalu eu morgais neu'n gwerthu eu cartref; mae hynny'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn adennill ei buddsoddiad cychwynnol ac yn gallu defnyddio unrhyw arian dros ben, llai'r costau rhedeg, ar gyfer blaenoriaethau eraill.

**2.22** Bydd ein buddsoddiad yn Nhai'r Farchnad Agored yn canolbwyntio hefyd ar y Gronfa Cartrefi Gwag. Rydym wedi neilltuo £25m yng Nghyllideb ddrafft 2025-26 i ddarparu benthyciad neu gyllid grant i roi bywyd newydd i dai gwag anodd eu llenwi. Eiddo gwag anodd eu llenwi yw'r rheini sydd wedi bod yn wag ers dros 2 flynedd, ac mae hyd at £25,000 ar gael i berchen-feddianwyr (neu ddarpar berchen-feddianwyr) i dalu am gost gwaith adfer eiddo fel bod modd byw ynddo, ar yr amod bod y sawl sy'n ceisio am yr arian yn byw yn yr eiddo am o leiaf 5 mlynedd.

**2.23** Er ein bod wedi ymrwymo i ddarparu mwy o dai cymdeithasol, mae angen parhaus am dai'r farchnad agored yng Nghymru ac mae'n bwysig creu safleoedd tai deiliadaeth gymysg i gael cymunedau gwirioneddol gynaliadwy. Mae Cymorth i Brynu - Cymru a'r Gronfa Cartrefi Gwag yn ganolog i fynd i'r afael â'r angen hwn yn ogystal â helpu i godi safonau tai'r farchnad agored. Bydd yn rhaid i adeiladau newydd sydd ar gael drwy'r rhaglen Cymorth i Brynu - Cymru fodloni'r lefelau effeithlonrwydd ynni sylfaenol a'r arferion gorau o ran safonau perfformiad ynni, gan gefnogi targedau Sero Net Cymru a bodloni Gofynion Ansawdd Dylunio.

## Y Sector Rhentu Preifat

| | |
|---|---|
| Datgarboneiddio | Byddwn yn helpu'r sector rhentu preifat i wella effeithlonrwydd ynni eiddo |
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Bydd ein buddsoddiadau'n sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da |
| Buddsoddi yng Nghymru | Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy â lleoedd o ansawdd uchel i fyw |

**2.24** Nod Cynllun Prydlesu Cymru yw prydlesu eiddo yn y Sector Rhentu Preifat i'w defnyddio gan awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau mewn cysylltiad â

digartrefedd. Mae'r tenantiaid yn cael cynnig yr un lefel o gymorth a fyddai'n cael ei ddisgwyl yn y sector cymdeithasol, ac mae'r rhent yn cael ei gyfyngu i gyfraddau lwfans tai lleol. Mae cymhellion yn cael eu cynnig i berchnogion i wella ansawdd eu heiddo, gan gynnwys eu gwneud yn fwy ynni-effeithlon. Mae cymhellion uwch ar gael os oedd yr eiddo arfer bod yn wag. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle gwerthfawr i awdurdodau lleol gynyddu'r stoc a'r amrywiaeth o dai sydd ar gael iddynt er mwyn cyflawni eu dyletswyddau mewn cysylltiad â digartrefedd ac atal digartrefedd.

2.25 Mae'r cynllun yn cyflawni ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'n rhan o ddull arloesol gan awdurdodau lleol i ymdrin â digartrefedd fel rhan o'r broses o newid i ddulliau ailgartrefu cyflym ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd. Hefyd, mae'r cynllun yn gwella llesiant cymdeithasol tenantiaid, gan roi cartrefi o ansawdd uchel iddynt am gyfnod hirach, a'u galluogi i elwa ar y lefel o gymorth i denantiaid y byddent yn ei ddisgwyl mewn tai cymdeithasol.

2.26 Mae'r cynllun hwn ar gael i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae gan bob un darged dros dro i brydlesu 1% o'u heiddo Sector Rhentu Preifat drwy'r cynllun erbyn blwyddyn 5 (2027). Rydyn ni wedi dyrannu £3.5m arall i'r cynllun yng Nghyllideb ddrafft 2025-26 i ehangu'r cynllun ledled Cymru.

2.27 Mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau rhent ar y gyfradd lwfans tai lleol i berchnogion eiddo am hyd y brydles, yn ogystal ag atgyweiriadau ar gyfer unrhyw ddifrod neu atgyweiriadau i eiddo o ganlyniad i draul normal.

2.28 Yn ogystal â sicrhau bod rhagor o dai fforddiadwy ar gael, mae'r cynllun hefyd yn cyfrannu at wella safonau eiddo yn y Sector Rhentu Preifat drwy gynnig grantiau hyd at £5k i wella cyflwr yr eiddo, neu hyd at £25k ar gyfer eiddo gwag, naill ai i sicrhau bod yr eiddo'n cyrraedd safonau gorfodol y cynllun neu i wella'r sgôr EPC i C o leiaf.

Bydd mesurau effeithlonrwydd ynni yn fesur hollbwysig o ran cyflawni Cyllideb Garbon 2 a'n targed sero net. Mae gan Gymru 1.4 miliwn o gartrefi o bob lliw a llun, gan gynnwys cyfran sylweddol o adeiladau hŷn. Bydd ein buddsoddiadau yng nghynllun prydlesu'r Sector Rhentu Preifat yn rhan hollbwysig o sbarduno effeithlonrwydd ynni'r sector hwn.

## Tai Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Bydd ein buddsoddiadau'n sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da |
| Buddsoddi yng Nghymru | Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt |
| Datgarboneiddio | Rhaid i fuddsoddiad newydd yn y stoc tai cymdeithasol gyflawni'r targedau yn Cymru Sero Net |
| Defnydd Anghynaliadwy | Byddwn yn parhau i archwilio a defnyddio technolegau adeiladu tai carbon isel newydd, gan gynnwys 'Dulliau Adeiladu Modern' |

**2.29** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad i adeiladu 20,000 o dai i'w rhentu yn y sector cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â phrinder tai ac allyriadau nwyon tŷ gwydr y genedl, a chyflawni'r ymrwymiad i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal digartrefedd ac ailgartrefu cyflym. Roedd lefel y buddsoddiad mewn tai o dan y Cynllun Cyllid Seilwaith blaenorol yn uwch nag erioed. Serch hynny, mae'r gwaith o gyflenwi rhagor o dai yng Nghymru wedi wynebu heriau sylweddol, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn costau. Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda'r sector i nodi a lliniaru effaith heriau lle bo'n bosibl. Mae'r Cyllideb Drafft 2025-26 wedi dyranni £452.122m yn ychwanegol i'r ardal fuddsoddi hwn – y buddsoddiad uchaf erioed mewn tai o dan y Cynllun Cyllid Seilwaith blwyddyn o hyd hwn.

**2.30** I ategu ein Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, sydd wedi'i sefydlu'n dda, ac i helpu'r sector i ganolbwyntio ar gyflenwi rhagor o dai yn gyflym i fodloni'r angen brys am dai, byddwn yn parhau i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, a gafodd ei chyflwyno yn 2021.

**2.31** Bydd y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau yn parhau i ategu'r gwaith o ddatblygu tir ac adeiladau segur mewn perchnogaeth gyhoeddus yn gyflym er mwyn darparu tai cymdeithasol a fforddiadwy y mae mawr eu hangen ar gymunedau ledled Cymru. Mae'r cynllun yn ategu'r uchelgais ar gyfer datblygiadau carbon isel, ynni-effeithlon ar raddfa fach, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatgloi cynlluniau a fydd yn defnyddio dulliau adeiladu modern a thechnolegau arloesol, ac yn darparu atebion yn gyflym

**2.32** Bydd y rhaglen hon yn adeiladu ar waith Datgarboneiddio Tai Cymdeithasol, gyda gwaith adfer ôl-osod ar dai cymdeithasol, i'n helpu ni i gyrraedd targedau Sero Net Cymru. 6.1 Yn 2020, roedd cartrefi Cymru yn cynhyrchu tua 11% o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol ac yn defnyddio 27% o'r holl ynni a ddefnyddiwyd yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau nad yw'r cartrefi newydd rydyn ni'n eu hariannu yn y sector rhentu cymdeithasol yn gwaethygu'r sefyllfa hon. Bydd tai cymdeithasol yng Nghymru'n cael eu hadeiladu yn unol â safonau inswleiddio a gofod uwch na'r rhai sydd wedi'u gosod ar gyfer cartrefi ar y farchnad agored, fel y nodir yng Ngofynion Ansawdd Dylunio Cymru. Bydd disgwyl i ychwanegiadau at y stoc tai cymdeithasol hirdymor gyrraedd ein Safonau Ansawdd Tai Cymru dros amser.

**2.33** Mae Gofynion Ansawdd Dylunio Cymru yn mynnu bod pob cartref newydd sy'n cael ei adeiladu gyda grant cymorth Llywodraeth Cymru yn cyrraedd safonau beiddgar sy'n uwch na'r rhai a nodir yn y Rheoliadau Adeiladu, gan gynnwys: Cyflawni EPC A (SAP92 neu uwch) drwy fabwysiadu dull adeiladwaith yn gyntaf a defnyddio boeleri nad ydynt yn llosgi tanwydd ffosil i ddarparu dŵr poeth domestig a gwres gofod. Gall buddsoddi mewn gwella effeithlonrwydd ynni tai newydd a thai sy'n bodoli eisoes helpu i leihau tlodi tanwydd a dibyniaeth ar fudd-daliadau, gydag amcangyfrif bod pob £1.00 sy'n cael ei gwario ar effeithlonrwydd ynni yn arbed tua 0.42c mewn costau iechyd.

## Pennod 3: Trafnidiaeth

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 186,400 |
| Rheilffyrdd | 181,597 |
| Bysiau | 31,000 |
| Trafnidiaeth Ranbarthol | 124,800 |
| **Cyfanswm y Sector Trafnidiaeth** | **523,797** |

### Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

| | |
|---|---|
| Lles Corfforol | Byddwn yn buddsoddi i gynnal ein rhwydwaith ffyrdd strategol i fodloni rhwymedigaethau statudol a gwarchod diogelwch a bywydau |
| Cyflogaeth | Bydd buddsoddi yn ein rhwydwaith ffyrdd strategol yn adlewyrchu ein hierarchaeth buddsoddi mewn trafnidiaeth ac yn helpu i greu cyfleoedd cyflogaeth |
| Bioamrywiaeth | Pan fydd ein buddsoddiadau hanfodol mewn seilwaith yn cael effaith anorfod ar fioamrywiaeth a'n hamgylchedd naturiol, byddwn yn buddsoddi mewn mesurau gwrthbwyso i leihau a lliniaru'r effeithiau hynny |
| Bioamrywiaeth | Bydd ein buddsoddiadau Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn cefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. |

**3.1** Our Mae ein buddsoddiadau yn y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn cyd-fynd yn llwyr â chyflawni ein blaenoriaethau strategol, sef y Rhaglen Lywodraethu, Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Prif nodau ein buddsoddiadau yw parhau â'n gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a dal i gynnal a gwella ein hasedau bioamrywiaeth, ond mae'n bwysig cydnabod yr angen i gynnal a gwella cyflwr ein hased mwyaf er diogelwch pobl Cymru.

**3.2** Through Trwy Gyllideb ddrafft 2025-26, rydym yn dyrannu £186.4m i'n rhaglenni Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, sy'n cynnwys cyllid i gyflawni gwaith a fydd yn ceisio atal y rhwydwaith rhag dirywio ymhellach. Mae cadw llwybrau ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn agored ac yn ddiogel, a sicrhau eu bod nhw'n rhedeg yn esmwyth, yn hanfodol er mwyn cysylltu ein cymunedau a galluogi'r twf economaidd y mae cysylltedd yn ei gefnogi.

**3.3** Mae'r buddsoddiad hwn yn ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol hefyd wedi'i gynllunio i sicrhau bod y sector seilwaith hwn hefyd yn cyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys parhau â'n "menter Coridorau Gwyrdd" - plannu coed a llwyni brodorol ar draws yr ystad feddal bresennol, ac ymgymryd â gwaith adfer y dirwedd a gwella cynefinoedd, plannu bylbiau brodorol a phlanhigion ifanc brodorol.

**3.4** Gwnaethom gyhoeddi ein cynllun Bioamrywiaeth, gan ddangos ein gwelliant parhaus o ran rheoli ar gyfer bioamrywiaeth a'n cyfraniad at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn gyffredinol.

3.5 Mae ein ffocws parhaus ar adnewyddu a chynnal asedau, yn ogystal â'n buddsoddiad mewn mesurau bioamrywiaeth, yn dystiolaeth o'n hymrwymiad parhaus i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Ar ben hynny, rydym yn meincnodi cyfraniad carbon y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol er mwyn gosod targedau i leihau hyn, a datblygu cynllun clir i'w cyflawni.

## Rheilffyrdd

| | |
|---|---|
| Cyflogaeth | Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn gwella mynediad at gyfleoedd swyddi ac yn ei gwneud hi'n bosibl lleoli swyddi'n gynaliadwy |
| Datgarboneiddio | Bydd ein buddsoddiadau trafnidiaeth yn cefnogi'r rôl y gall newid dulliau teithio ei chwarae wrth gefnogi datgarboneiddio |
| Cynhyrchiant Busnes | Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn ei gwneud hi'n bosibl sicrhau'r buddion o ran cynhyrchiant sy'n gysylltiedig â datblygiadau busnes newydd yn canolbwyntio ar ganol trefi |
| Y Gymraeg | Gall ein buddsoddiadau ar draws sectorau seilwaith gefnogi cymdeithas ac economi sy'n annog ac yn gwneud y defnydd gorau o'r Gymraeg |

3.6 Mae elfennau sylweddol o'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru yn dal wedi'u cadw'n ôl i Lywodraeth y DU, ac yn yr ardaloedd hynny byddwn yn cyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu i barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am gyfran deg o'r seilwaith rheilffyrdd hanfodol ac i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu ar gyfer Cymru, ac i drydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru

3.7 Fodd bynnag, bu trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd i Lywodraeth Cymru a pherchnogaeth masnachfraint Cymru a'r Gororau yn gyfle i ddefnyddio buddsoddiad mewn seilwaith fel cyfrwng i gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, yn ogystal â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys darparu £800m o gerbydau newydd ar gyfer ein rheilffyrdd a sicrhau bod 95% o deithiau ar y rheilffordd yn cael eu gwneud ar drenau newydd erbyn 2026, gweithio tuag at ein targed newydd o wneud 45% o deithiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040, a sicrhau bod ein system trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn fwy hygyrch i bobl anabl.

3.8 Er mwyn cefnogi'r uchelgeisiau hyn, mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £181.6m o gyllid cyfalaf fel bod modd parhau â Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, gan ddarparu'r cledrau, y signalau a'r gwaith trydaneiddio wedi'i uwchraddio a fydd yn golygu bod modd rhedeg mwy o wasanaethau a gwasanaethau cyflymach. Bydd hyn yn gwella mynediad a chysylltedd rhwng cymunedau'r cymoedd a Chaerdydd, sy'n elfen allweddol o system Metro De Cymru. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd oddeutu 170 cilomedr o gledrau wedi'u trydaneiddio, gyda 2,500 o strwythurau llinell uwchben wedi'u gosod.

3.9 Yn fwy cyffredinol, bydd ein hymrwymiad i gerbydau newydd yn darparu trenau newydd, cyflymach a mwy cyfforddus, ac yn golygu bod modd sefydlu mwy o wasanaethau a llwybrau newydd. Bydd hyn yn cynnwys fflydau Stadler

trydan/batri ar gyfer gwasanaethau Llinellau Craidd y Cymoedd a fflyd diesel newydd ar gyfer y llinellau heb eu trydaneiddio; disgwylir y bydd tua 20% yn fwy effeithlon na'r fflyd bresennol.

**3.10** Nod ein buddsoddiad mewn seilwaith rheilffyrdd yw cyflawni arbedion allyriadau cronnol hyd at 2040 drwy annog newid dulliau teithio. Yn dilyn newidiadau amserlen Rhagfyr 2024, bydd 59% o wasanaethau Trafnidiaeth Cymru yn cael eu gweithredu gan fflyd newydd – sydd wedi cynyddu o 42%. Ar Linellau Cangen Gogledd Cymru, mae 100% o deithiau eisoes yn cael eu gweithredu gan fflyd newydd.

### Bysiau

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Allweddol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n galluogi rhwydwaith sefydlog a chydlynol o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus |
| Cyflogaeth | Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn gwella mynediad at gyfleoedd swyddi ac yn ei gwneud hi'n bosibl lleoli swyddi'n gynaliadwy |
| Datgarboneiddio | Bydd ein buddsoddiadau mewn trafnidiaeth yn cefnogi'r gwaith o adnewyddu a datgarboneiddio'r fflyd bysiau ac yn cefnogi'r rôl y gall newid dulliau teithio ei chwarae o ran cefnogi datgarboneiddio |
| Cynhyrchiant Busnesau | Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn ei gwneud hi'n bosibl sicrhau'r buddion o ran cynhyrchiant sy'n gysylltiedig â datblygiadau busnes newydd sy'n canolbwyntio ar ganol trefi |

**3.11** Mae ein buddsoddiad mewn seilwaith bysiau yn cwmpasu dau faes eang: adnewyddu a datgarboneiddio'r fflyd bysiau gwasanaeth a datblygiadau at fasnachfreinio ym mhob rhan o Gymru.

**3.12** Rydym wedi dyrannu £31m drwy Gyllideb ddrafft 2025-26 i barhau i adnewyddu'r fflyd bysiau sy'n heneiddio yng Nghymru, i ddechrau gyda bysiau diesel allyriadau is newydd ac wedyn gyda cherbydau trydan a hydrogen a seilwaith cysylltiedig i helpu i gefnogi datgarboneiddio a moderneiddio. Dros amser, bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi system trafnidiaeth gyhoeddus Cymru i fod yn fwy hygyrch a fforddiadwy i bob carfan o gymdeithas.

### Trafnidiaeth Ranbarthol

| | |
|---|---|
| Datgarboneiddio | Bydd ein buddsoddiadau mewn trafnidiaeth yn cefnogi'r rôl y gall newid dulliau teithio ei chwarae o ran cefnogi datgarboneiddio |
| Ansawdd Aer a Dŵr | Bydd ein buddsoddiadau mewn trafnidiaeth yn caniatáu ar gyfer newid dulliau teithio, a'r gwelliannau cysylltiedig mewn ansawdd aer |
| Llesiant Corfforol | Byddwn yn blaenoriaethu buddsoddi mewn seilwaith cerdded ac olwyno, sy'n gallu arwain at fanteision iechyd sylweddol |
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Bydd ein buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus a'r seilwaith ffyrdd a cherdded ac olwyno yn ystyried y buddion y gall cynlluniau eu sicrhau drwy hybu defnydd ar draws pob grŵp cymdeithasol |
| Gwasanaethau Allweddol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n galluogi rhwydwaith sefydlog a chydlynol o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus |
| Cyflogaeth | Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn gwella mynediad at gyfleoedd swyddi ac yn ei gwneud hi'n bosibl lleoli swyddi'n gynaliadwy |

3.13 Mae trafnidiaeth yn cynhyrchu 17% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Bydd buddsoddi mewn trafnidiaeth ranbarthol yn canolbwyntio ar hybu newid dulliau teithio i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy i gyrraedd y targed i gynyddu cyfran y teithiau mewn modd teithio cynaliadwy i 35% erbyn 2025 a 39% erbyn 2030, fel y nodir yn Cymru Sero Net.

3.14 Mae Cyllideb ddrafft 2025-26 yn neilltuo £124.8m i drafnidiaeth ranbarthol i Awdurdodau Lleol ei fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth i helpu i gyflawni Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae'r buddsoddiad hwn yn cynnwys buddsoddi mewn seilwaith cerdded ac olwyno, seilwaith bysiau, seilwaith gwefru cerbydau trydan, mesurau diogelwch ar y ffyrdd ac addasu'r rhwydwaith ffyrdd i newid yn yr hinsawdd. Bydd cyllid yn 2025-26 yn parhau i fuddsoddi yn y llif o brosiectau a ddatblygwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hefyd yn cynnwys mesurau cenedlaethol fel datblygu Arolwg Teithio Cenedlaethol i fonitro canlyniadau a buddsoddiad digidol mewn cynllunio teithiau.

3.15 Wrth asesu ceisiadau am gyllid yn y cynlluniau grant hyn, mae angen dangos sut mae'n cyd-fynd â Llwybr Newydd – yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth carbon isel, hygyrch, effeithlon a chynaliadwy – yn ogystal â chydymffurfio â gofynion asesu WelTAG.

# Pennod 4: Adfywio

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Trawsnewid Canol Trefi | 40,000 |
| Diogelwch Tomenni Glo | 33,317 |
| **Cyfanswm y Sector Adfywio** | **73,317** |

## Trawsnewid Canol Trefi

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Allweddol | Bydd ein buddsoddiadau mewn adfywio yn gwella gwead canol trefi ac yn hybu gwasanaethau cyhoeddus hygyrch |
| Buddsoddi yng Nghymru | Wrth fuddsoddi'n strategol yn ein rhaglenni adfywio, byddwn yn sicrhau bod agwedd Gymru gyfan yn cael ei mabwysiadu |
| Bioamrywiaeth | Bydd ein buddsoddiadau, gan gynnwys ein hagenda Trawsnewid Trefi, yn ehangu mannau gwyrdd Cymru |
| Cyflogaeth | Byddwn yn buddsoddi yng nghanol ein trefi i ganiatáu i fusnesau weithio ar y cyd a manteisio ar gadwyni cyflenwi lleol i gefnogi creu swyddi |

4.1 Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n tanlinellu ein hymrwymiad i ganol ein trefi, gyda ffocws clir ar sicrhau eu bod yn gallu bod yn fwy economaidd ystwyth yn ogystal ag ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol. Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn nodi dyraniad o £40m i drawsnewid canol ein trefi.

4.2 Mae ein rhaglen Trawsnewid Trefi yn seiliedig ar egwyddorion creu lleoedd ac uwchgynlluniau cadarn sy'n cydnabod cyd-destun newydd trefi. Mae'n hybu trefi defnydd cymysg fel mannau i fyw ynddynt, i weithio ynddynt, i ymweld â nhw ac i aros ynddynt.

4.3 Mae prif elfennau gweithgareddau 'creu lleoedd' yn cynnwys cyfraniad cryf gan y gymuned, llesiant, gwella mannau sy'n bodoli eisoes, a chynnal eu hunaniaeth unigryw. Mae Trawsnewid Trefi yn becyn cymorth cydlynol. Hwn yw buddsoddiad adfywio craidd Llywodraeth Cymru yng nghanol trefi. Bydd trefi unigol yn elwa drwy ganfod y cymysgedd o ymyriadau sy'n gweddu orau i'w nodweddion penodol, eu cryfderau, eu diwylliant a'u treftadaeth leol.

4.4 Mae'r buddsoddiad yn galluogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag eiddo gwag yng nghanol trefi, ac yn darparu benthyciadau a chyllid grant i ailddechrau defnyddio adeiladau masnachol gwag a rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon. Mae cyllid grant ar gyfer gwneud mannau cyhoeddus yn fwy gwyrdd er mwyn gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth yn rhan allweddol o'r buddsoddiad, gan wella mynediad pobl at fannau gwyrdd a gwneud trefi'n lleoedd mwy deniadol.

4.5 Mae'r sylw ar ganol trefi yn cyd-fynd yn uniongyrchol â pholisi "Canol Trefi yn Gyntaf" Cymru'r Dyfodol, a fydd yn dylanwadu ar leoliad gwasanaethau cyhoeddus a datblygiadau manwerthu a masnachol, gan eu denu i ganol trefi, a

bydd hynny'n arwain at sawl defnydd neu reswm dros ymweld â chanol trefi, gan gynnwys hamdden, gwasanaethau, byw, gwaith a phrofiad.

4.6 Un o flaenoriaethau Trawsnewid Trefi yw cynnig ffyrdd eraill o ddefnyddio safleoedd ac adeiladau yng nghanol trefi, gan gynnwys datblygu economi gylchol, drwy weithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol i chwilio am gyfleoedd i gefnogi canolfannau cymunedol ac atgyweirio ac ailddefnyddio canolfannau. Bydd y pecyn buddsoddi hwn yn sicrhau bod lleoliadau addas ar gael, ac yn cynnig dyfodol mwy cynaliadwy i ganol ein trefi.

4.7 Gwyddom fod 50% o'r holl garbon mae adeilad yn ei greu drwy gydol ei oes yn cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod adeiladu, felly mae ailgylchu'r adeiladau hyn drwy ein buddsoddiad adfywio ynddo'i hun yn ymyriad cadarnhaol ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Mae pob prosiect sy'n cael ei ariannu drwy Trawsnewid Trefi yn cael ei ddylunio, ei gynllunio a'i adeiladu'n ofalus iawn i'r safonau amgylcheddol uchaf (e.e. BREEAM, sgôr EPC A ac ati), a chaiff y safonau dylunio eu hadolygu gan Gomisiwn Dylunio Cymru mewn achosion priodol. Bydd cyllid yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer prosiectau sy'n ailddatblygu ac yn adeiladu eiddo carbon isel.

## Diogelwch Tomenni Glo

| | |
|---|---|
| Llesiant corfforol | Lle bo angen, byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni adfer tomenni glo |
| Ansawdd Aer a Dŵr | Lle bo angen, byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni adfer seilwaith |

4.8 Our Cafodd ein Tasglu Diogelwch Tomenni Glo ei greu i oruchwylio rhaglen waith i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â diogelwch tomenni glo nas defnyddir, a ddaeth i'r amlwg gyda thirlithriad Tylorstown. Ers creu'r Tasglu Diogelwch Tomenni Glo, mae'r gwaith hwn wedi cael ei gynnwys fel ymrwymiad penodol yn y Rhaglen Lywodraethu.

4.9 Mae angen rhaglen sylweddol o waith a buddsoddiad i gynnal sefydlogrwydd tomenni glo a helpu i atal rhagor o ddigwyddiadau posibl ac, wrth wneud hynny, helpu i ddiogelu seilwaith critigol, eiddo a'r amgylchedd, a chyfrannu at gymunedau iach a chydnerth.

4.10 Yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu fe wnaethom gyflwyno deddfwriaeth gerbron y Senedd i ddelio â'r hyn a etifeddwyd gan ganrifoedd o gloddio a sicrhau diogelwch tomenni glo; gan gryfhau'r pwerau i ddiogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd. Fodd bynnag, cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo presennol i gefnogi gwaith cynnal a chadw ac adfer i sicrhau bod yr ystad tomenni nas defnyddir yn cael ei rheoli'n effeithiol ac i liniaru'r bygythiad i les pobl. Rydym yn neilltuo £33.3m i'r cynllun yng Nghyllideb ddrafft 2025-26. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yma. Mae'r dyraniad hwn yn cynnwys buddsoddiad Llywodraeth y DU o £25m.

4.11 Bydd y buddsoddiad hwn yn parhau i ariannu rhaglenni cynnal a chadw ar yr ystad tomenni glo nas defnyddir a bydd yn canolbwyntio ar ddod â thomenni

risg uwch i gyflwr sefydlog cyn y drefn rheoli statudol newydd a gynigir yn y Bil Diogelwch Tomenni Nas Defnyddir.

**4.12** Prif bwrpas y buddsoddiad yw lleihau tirlithriadau posibl i ddiogelu bywydau a seilwaith hanfodol. Gallai rhagor o dirlithriadau gael effeithiau negyddol o ganlyniad i raglenni glanhau ac ailadeiladu sy'n arwain at lawer o allyriadau carbon.

# Pennod 5: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Seilwaith ac Offer GIG Cymru | 503,980 |
| Digidol yn GIG Cymru a gofal cymdeithasol | 40,000 |
| Seilwaith Gofal Sylfaenol a Chymunedol | 70,000 |
| **Cyfanswm y Sector Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **613,980** |

## Seilwaith ac Offer GIG Cymru

| | |
|---|---|
| Llesiant corfforol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol modern o ansawdd uchel |
| Llesiant meddyliol | Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r dull gweithredu cyfannol ar gyfer gofal iechyd meddwl a chorfforol |
| Incwm Aelwydydd | Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith sefydliadau angori lleol yn galluogi buddsoddiad o ansawdd uchel gan y sector preifat |
| Datgarboneiddio | Wrth ddatblygu pob cynnig seilwaith, rhaid i'n hymateb ymgorffori ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur |

**5.1** Gwella perfformiad GIG Cymru yw un o'n prif flaenoriaethau. Mae cyflawni'r flaenoriaeth hon yn dibynnu ar gynnal a gwella seilwaith yr ystad, buddsoddi yn y technolegau digidol diweddaraf, yn ogystal ag argaeledd offer modern a dibynadwy sy'n addas i'r diben.

**5.2** Mae ein buddsoddiad cyfalaf yn ystad y GIG Cymru yn cynnwys amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys cynnal y seilwaith presennol (gan gynnwys gofynion statudol), diweddaru ac adnewyddu ein hystad a sut mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu – er enghraifft, cynyddu'r cyfleoedd i ddatgarboneiddio a sefydlu seilwaith cyfleusterau – a buddsoddi mewn seilwaith i alluogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau GIG Cymru, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

**5.3** Bydd ein buddsoddiadau ar gyfer y cynllun blwyddyn hwn yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy mewn asedau presennol i sicrhau diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr. Ar ben hynny, bydd buddsoddiadau dewisol ac wedi'u targedu i atal methiannau adeiladu a seilwaith a chefnogi'r gwaith o atal colli cynhyrchiant yn y GIG Cymru. Pan fo'n bosibl, byddwn yn gwneud buddsoddiadau wedi'u targedu sy'n gysylltiedig â lleihau amseroedd aros drwy fynd i'r afael â pha mor fregus a chynaliadwy yw'r seilwaith.

**5.4** Byddwn yn parhau i gynnal y sylfaen asedau offer i sicrhau diagnosteg gywir sy'n arwain at ganlyniadau gwell i gleifion, gwell argaeledd sganiau sy'n arwain at fwy o allbynnau, a chefnogi recriwtio a chadw staff drwy argaeledd y dechnoleg ddiweddaraf.

5.5 Yn yr un modd â'r holl raglenni rheoli ystadau, rhaid i ni weithio gyda'r GIG Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a sicrhau bod yr adeiladau'n ddiogel i gleifion, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad parhaus mewn "Eitemau craidd gofynnol" sy'n gysylltiedig â FIRE, Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth a Chydymffurfiaeth Statudol.

5.6 Bydd ein buddsoddiad yn ystâd y GIG Cymru yn parhau i fwrw ymlaen i gyflawni'r ymrwymiadau a'r targedau uchelgeisiol a nodir yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, fel rhan o'i gyfraniad at yr uchelgais sero net ar y cyd erbyn 2030. Yn ogystal â dadansoddiad penodol o fesurau lleihau carbon, bydd angen i achosion busnes sy'n benodol i brosiect, gan gynnwys y rhai ar gyfer offer cyfalaf, fynegi sut bydd y buddsoddiad yn effeithio ar allyriadau carbon.

## Digidol yn GIG Cymru a gofal cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Llesiant corfforol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol modern o ansawdd uchel |
| Llesiant Meddyliol | Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r dull gweithredu cyfannol ar gyfer gofal iechyd meddwl a chorfforol |
| Datgarboneiddio | Wrth ddatblygu pob cynnig seilwaith, rhaid i'n hymateb ymgorffori ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur |

5.7 Mae hi'n hanfodol bod darparu'r holl wasanaethau iechyd a gofal yn seiliedig ar seilwaith digidol effeithlon ac effeithiol, sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mwy cadarn, diogel a hygyrch i staff, i gleifion ac i'r cyhoedd, gan arwain at ganlyniadau iechyd a gofal gwell ledled Cymru. Mae buddsoddi mewn seilwaith digidol hefyd yn helpu i leihau'r gwahaniaeth o ran mynediad at wasanaethau gofal iechyd.

5.8 Mae Cyllideb ddrafft 2025-26 yn neilltuo £40m i'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol. Bydd y buddsoddiad hwn yn parhau i wthio trawsnewid digidol yn gyflym ym maes iechyd a gofal, gan gefnogi ein prif flaenoriaethau a chyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu i ymestyn y defnydd o dechnolegau newydd, gan gynnwys defnyddio e-bresgripsiynu ar draws GIG Cymru ac archwilio deallusrwydd artiffisial i ganfod afiechydon yn gywir; gall hynny helpu i ddarparu cyngor a thriniaeth yn gyflym ac yn effeithiol.

5.9 Mae angen buddsoddi yn ein hystad iechyd er mwyn cyflawni'r targedau lleihau allyriadau uchelgeisiol sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru. Yn unol â'n Strategaeth Ddigidol i Gymru a chan adeiladu ar fuddion datgarboneiddio'r camau tuag at fwy o rith-ymgynghoriadau a chyswllt â chleifion allanol yn ystod y pandemig, mae cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth ddigidol, gan ddefnyddio llai o garbon o ganlyniad i leihau'r angen i deithio i gael mynediad yn ogystal â darparu gwasanaethau gofal iechyd.

### Seilwaith Gofal Sylfaenol a Chymunedol

| | |
|---|---|
| Physical well-being | We will invest in modern and high-quality health and social care infrastructure |
| Mental Well-being | Our investment in infrastructure within the health and social care sector will reflect the holistic approach to physical and mental healthcare |
| Decarbonisation | In developing all infrastructure proposals, our response must embed our commitment to tackling the climate and nature emergency |

**5.10** Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi uchelgais glir am seilwaith gofal sylfaenol a chymunedol, ac mae'n ymrwymo i fuddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru, ynghyd â datblygu canolfannau cymunedol lleol i gyd-leoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yn ogystal â gwasanaethau eraill. Fe wnaethom sefydlu'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Cyfalaf (IRCF) i gefnogi'r uchelgais hwn yn uniongyrchol. Drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, cafodd 25 prosiect gyllid o dan y Cynllun Cyllid Seilwaith blaenorol, sy'n werth ychydig dros £92m.

**5.11** Bydd y maes buddsoddi hwn yn cefnogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymhellach i fwrw ymlaen â'u prosiectau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael blaenoriaeth o dan y Fframwaith ac mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £70 i'r ardal fuddsoddi hwn. Byddwn yn sicrhau ein bod yn dysgu o'n profiadau â'r biblinell bresennol, ac yn blaenoriaethu'r angen i gynnal astudiaethau dichonoldeb ac ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau'r buddion cyd-leoli mwyaf posibl fel rhan hanfodol o'r gwaith cynnar. Mae amrywiaeth o ofynion buddsoddi yn debygol o ddatblygu, a bydd rhai ohonynt yn gofyn am fuddsoddiadau sylweddol mewn adeiladau newydd, ond byddwn hefyd yn mynd ar ôl cyfleoedd i weithio gydag eraill drwy adnewyddu ac ail-bwrpasu asedau.

**5.12** Mae canllawiau IRCF ar gyfer ymgeiswyr yn nodi'n glir ymrwymiad y rhaglen i bolisïau Sero Net Cymru, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i bob prosiect adeiladu newydd fod yn sero net a gweithredu safonau BREEAM priodol.

# Pennod 6: Datgarboneiddio

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Tlodi Tanwydd | 37,500 |
| Ynni Lleol | 22,400 |
| Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Byw'n Glyfar | 22,000 |
| **Cyfanswm y Sector Datgarboneiddio** | **81,900** |

## Tlodi Tanwydd

| | |
|---|---|
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Byddwn yn parhau i wneud buddsoddiadau cyfalaf strategol i liniaru tlodi tanwydd. |
| Incwm Aelwydydd | Gall ein buddsoddiad mewn cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol chwarae rhan yn y gwaith o gynyddu incwm aelwydydd |
| Datgarboneiddio | Byddwn yn buddsoddi mewn datgarboneiddio cartrefi sy’n bodoli eisoes drwy fesurau ôl-osod |

**6.1** Yn 2020, roedd cartrefi Cymru yn cynhyrchu tua 11% o’r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol ac yn defnyddio 27% o’r holl ynni a ddefnyddiwyd yng Nghymru. Mae datgarboneiddio cartrefi Cymru yn rhan hanfodol o fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd, ac mae hefyd yn arbed arian i drigolion, gallai helpu i fynd i’r afael â thlodi tanwydd, rhoi hwb i’r economi sylfaenol a chreu swyddi

**6.2** Mae gan ein cynllun tlodi tanwydd 2021-2035 dargedau clir sy’n diwallu ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000. Er mai cyfyngedig yw gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach tlodi tanwydd, mae ein cynllun yn cynnwys targedau ystyrlon ond heriol, gan ystyried y gwersi sydd wedi cael eu dysgu dros y deng mlynedd diwethaf.

**6.3** Mae targedau’r cynllun yn datgan erbyn 2035:

- Nid amcangyfrifir bod unrhyw aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol neu barhaus i’r graddau sy’n rhesymol ymarferol.
- Nid amcangyfrifir bod mwy na 5% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd ar unrhyw un adeg i’r graddau sy’n rhesymol ymarferol.
- Bydd nifer yr holl aelwydydd sydd “mewn perygl” o fod mewn tlodi tanwydd yn llai na hanner yr amcangyfrif ar gyfer 2018.

**6.4** Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod 32,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol, sy’n cyfateb i 2% o’r holl aelwydydd. Er mwyn cyflawni uchelgeisiau o ran yr hinsawdd a thlodi tanwydd, bydd angen llawer iawn o fuddsoddiad ar draws cartrefi sy’n dlawd o ran tanwydd.

**6.5** Y Rhaglen Cartrefi Clyd ein prif ymyriad Llywodraeth Cymru mewn ymdrechion i leihau tlodi tanwydd ers ei lansio yn 2009/2010. Cyhoeddom ein cynllun statudol i fynd i’r afael â thlodi tanwydd ym mis Mawrth 2021, a lansiwyd

fersiwn diweddaraf y Rhaglen Cartrefi Clyd ym mis Ebrill 2024. Erbyn 2035, ein nod yw sicrhau nad oes mwy na 5% o holl aelwydydd Cymru mewn tlodi tanwydd a dim aelwydydd mewn tlodi tanwydd parhaus neu ddifrifol.

**6.6** Nod y Rhaglen Cartrefi Clyd yw cyflawni hyn drwy fabwysiadu dull 'ffabrig yn gyntaf', gan asesu anghenion pob cartref yn annibynnol cyn argymell camau tymor byr, tymor canolig a thymor hirach i'w cymryd i ddatgarboneiddio'r cartref ac i leihau cost biliau i berchnogion cartrefi. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys ffenestri a drysau newydd, inswleiddio waliau allanol neu geudod, gosod pympiau gwres ffynhonnell aer a phaneli solar ffotofoltäig ar gyfer 1500-2000 o gartrefi y flwyddyn. Felly, mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £37.5m ar gyfer ail flwyddyn y rhaglen saith mlynedd hon.

## Ynni Lleol

| | |
|---|---|
| Datgarboneiddio | Byddwn yn buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth gyhoeddus a lleol |
| Incwm Aelwydydd | Gall ein buddsoddiad mewn cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol chwarae rhan yn y gwaith o gynyddu incwm aelwydydd. |

**6.7** I ategu ein hymrwymiad i drawsnewid i economi sero net, rhaid inni leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil a defnyddio mwy o drydan o ffynonellau carbon isel ac adnewyddadwy. Un o'r dylanwadau allweddol yw mynd ar drywydd arloesi mewn technolegau adnewyddadwy newydd. Gan gydnabod ein targed i gynhyrchu 100% o'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio drwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2035 ac ar gyfer 1.5 Gigawat o gynhyrchu dan berchnogaeth leol, rydym yn cefnogi cyfleoedd i ddatblygu cyfleoedd ynni adnewyddadwy newydd ledled Cymru.

**6.8** Drwy Ynni Cymru, rydym yn buddsoddi £10m mewn prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol. Bydd y buddsoddiad hwn yn cadw buddion drwy gynyddu incwm i berchnogion prosiectau a darparu trydan rhatach a gwyrddach i fusnesau lleol, i gartrefi ac i asedau cymunedol wrth i ni gefnogi'r gwaith o ddatblygu Systemau Ynni Lleol Clyfar.

**6.9** Rydym yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaethau Ynni Rhanbarthol drwy gynlluniau ynni ardal leol. Bydd y buddsoddiad a nodir yn y strategaethau hynny'n cefnogi datgarboneiddio cartrefi, busnesau a chymunedau ledled Cymru ac yn cefnogi 200,000 o swyddi gwyrdd. Eleni, rydym yn edrych ar opsiynau cyllido i fuddsoddi £10m mewn prosiectau ynni yng Nghymru sy'n cael eu darparu'n lleol.

**6.10** Rydym hefyd am wneud Cymru yn arweinydd byd mewn ynni môr cynaliadwy, gan gasglu ynghyd y sector cyhoeddus, datblygwyr, buddsoddwyr, cadwyni cyflenwi a'r byd academaidd i ddatblygu ar y cyd. Un o nodau allweddol hyn yw helpu i ddatgloi'r rhwystrau sy'n atal cyflwyno morlynnoedd llanw yng Nghymru. Drwy'r Her Morlyn Llanw, rydym yn ariannu ymchwil i helpu i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi technoleg amrediad llanw yng Nghymru.

**6.11** Mae cefnogi datblygu a defnyddio technolegau cynhyrchu ynni carbon isel yn gallu creu buddion sylweddol o ran carbon, gan gyfrannu'n gadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

### Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Byw'n Glyfar

| | |
|---|---|
| Decarbonisation | We will invest in publicly and locally owned renewable energy generation |
| Household Incomes | Our investment in supporting locally owned renewable energy generation can play a role in increasing household incomes. |

**6.12** Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Byw'n Glyfar, yn hanfodol i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac arloesi mewn technoleg adnewyddadwy yn y sector cyhoeddus a thrwy grwpiau cymunedol. Mae'r Gwasanaeth yn alluogwr allweddol sy'n darparu cymorth, cyngor ac arbenigedd i brosiectau ynghyd â buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau na fyddent, heb gymorth, yn ariannol hyfyw. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cymorth technegol, cymorth prosiect a chymorth ariannol i brosiectau mwy a all leihau allyriadau yn y sectorau cyhoeddus a chymunedol.

**6.13** Mae'r cynllun Byw'n Glyfar, a'r gwaith cysylltiedig ar gyflawni'r llwybr hydrogen erbyn 2025, ar flaen y gad o ran arloesi ym maes datgarboneiddio. Mae'n cyllido cysyniadau cynnar a gwaith dichonoldeb ochr yn ochr â chynlluniau peilot ac arddangoswyr i ddangos sut gall Cymru, drwy integreiddio gwres, pŵer, trafnidiaeth a fectorau eraill, ddarparu systemau sero net sy'n gwasanaethu anghenion y boblogaeth yn well yn y mannau lle maent yn byw. Mae'n canolbwyntio ar brosiectau yn y sector cyhoeddus, gan ddefnyddio'r fframwaith SBRI Contractau Arloesi, a gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a denu cyllid arall. Yn y gorffennol, mae dros 85% o'r prosiectau cysyniadol cychwynnol wedi cael eu mabwysiadu a'u datblygu gan randdeiliaid eraill, gan ddenu dros £47m o gyllid cyhoeddus a phreifat ychwanegol.

**6.14** Ers 2020, mae Byw'n Glyfar wedi cefnogi cynlluniau peilot hydrogen a systemau cyfan ar gyfer datgarboneiddio, sef Heriau SBRI Contractau Arloesi gyda dros £5m o gyllid cyfalaf. Ar ôl y cyfnod gwerthuso, yn ddiweddar, lansiodd y cynllun y rhaglen Ymchwil ac Arloesi Systemau Cyfan ar gyfer Datgarboneiddio (WSRID) SBRI arfaethedig. Bydd y rhaglen ailadroddol, hirdymor hon yn cyllido pum Perchennog Her newydd ym maes Datgarboneiddio ledled Cymru ar gyfer Cam 1, sef Dichonoldeb. Bydd Arddangoswyr Cam 2 yn cael eu dewis drwy broses gystadleuol, a gallent gael cymorth o hyd at £500,000 fesul Her yn 202 –2026.

**6.15** Yn 2024-25, rydym wedi ymrwymo £11.25m mewn benthyciadau a oedd yn cefnogi prosiectau datgarboneiddio yn y sector cyhoeddus. Yn ogystal, ailgylchwyd ad-daliadau benthyciadau i gefnogi prosiectau datgarboneiddio newydd. Rydym hefyd wedi darparu £20m o gyllid ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn y sector addysg uwch ac addysg bellach.

**6.16** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 wedi dyrannu £11.25m i alluogi'r gwaith hwn i barhau. Mae datblygiadau lleol a chymunedol a pherchnogaeth ar ynni yn

arwain at nifer o fanteision y tu hwnt i gadw elw yn yr economi leol a lleihau allyriadau. Mae'n rhoi pobl mewn cysylltiad â thechnolegau adnewyddadwy ac yn eu normaleiddio. Mae cymryd rhan yn y prosiectau'n cynnig swyddi diogel sy'n talu'n dda, yn datblygu sgiliau ac yn darparu cydlyniant a chydnerthedd cymunedol. Mae gweld pobl leol yn perchnogi ac yn elwa ar y prosiectau hyn yn cynyddu llythrennedd ynni ac yn cynyddu parodrwydd y cyhoedd i'w derbyn, a fydd yn hanfodol er mwyn cyrraedd targedau sero net.

**6.17** Rhwng 2018 a 2024, gosododd prosiectau a gefnogwyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru 44.5 MW o gapasiti ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru – digon i bweru tua 18,000 o gartrefi. Bydd y prosiectau hyn yn arbed amcangyfrif o 857,120 tunnell o $CO_2e$ dros eu hoes.

# Pennod 7: Natur a'r Amgylchedd

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Ansawdd Aer | 2,686 |
| Bioamrywiaeth | 12,500 |
| Grantiau Amgylcheddol | 12,564 |
| Tirwedd a Hamdden Awyr Agored | 8,900 |
| Strategaeth Ddiwydiannol Pren a Choedwig Genedlaethol | 9,310 |
| **Cyfanswm y Sector Natur a'r Amgylchedd** | **45,960** |

## Ansawdd Aer

| | |
|---|---|
| Ansawdd Aer a Dŵr | Lle bo angen, byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni adfer seilwaith. |

**7.1** The Mae iechyd pobl Cymru yn dibynnu ar ansawdd yr amgylchedd rydym yn byw ynddo, ac mae aer o ansawdd gwael yn berygl sylweddol i iechyd pobl. Mae gennym ardaloedd lle mae ansawdd yr aer ymhlith y gorau yn y Deyrnas Unedig – fodd bynnag, mae'n hanfodol bod pawb yng Nghymru yn gallu mwynhau manteision aer glân.

**7.2** Mae llygryddion nid yn unig yn arwain at ganlyniadau negyddol i iechyd ein poblogaeth, ond maent hefyd yn gallu cael eu cludo drwy'r awyr i dir a chyrff dŵr. Gall hyn, yn ei dro, olygu eu bod yn cael effaith negyddol ar blanhigion ac anifeiliaid neu'n achosi newidiadau i gynefinoedd tir a dŵr, sy'n cael effaith niweidiol ar ein bioamrywiaeth gyfoethog.

**7.3** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo ni i ddatblygu ein huchelgeisiau a nodir yn y cynllun Aer Glân drwy gyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru ac ymestyn y ddarpariaeth o fonitro ansawdd aer. Er y bydd elfennau sylweddol o'r cynllun hwn yn cael eu cyflawni drwy ddefnyddio dulliau rheoleiddio ehangach, mae gan fuddsoddiad cyfalaf rôl allweddol i'w chwarae hefyd.

**7.4** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £2.686m i'r maes buddsoddi hwn i ganiatáu i Gyngor Caerdydd barhau â'r gwaith hanfodol i liniaru nitrogen deuocsid (NO2) yn Heol y Castell, Caerdydd. Bydd y buddsoddiad hwn yn parhau i gefnogi cynlluniau seilwaith ffyrdd yng nghanol y ddinas, gan leihau mynediad cyffredinol i gerbydau a chefnogi teithio llesol a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y cynllun yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gwerth terfyn cymedrig blynyddol ar gyfer NO2 ac yn ei gwneud hi'n llai tebygol i'r cyhoedd ddod i gysylltiad â deunydd gronynnol (PM2.5)

**7.5** Ar ben hynny, bydd yn ariannu'r gwasanaeth Rheoli Digwyddiadau Ansawdd Aer drwy Cyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn ein galluogi i ganfod ac i fynd i'r afael ag effeithiau llygredd ar aelodau agored i niwed ein cymunedau, y mae ansawdd aer gwael yn effeithio arnynt fwyaf.

7.6 Mae llygredd aer yn aml yn tarddu o'r un ffynonellau â nwyon tŷ gwydr, sy'n cyfrannu at newid hinsawdd. O ganlyniad, gall y camau a gymerir i leihau llygredd aer hefyd fynd i'r afael ag allyriadau nwyon tŷ gwydr lle ceir cyd-fanteision.

## Bioamrywiaeth

| | |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | Byddwn yn buddsoddi mewn rhwydweithiau ecolegol cadarn |
| Bioamrywiaeth | Bydd ein buddsoddiad mewn mawndiroedd yn arwain at fanteision bioamrywiaeth ac atafaelu carbon |
| Bioamrywiaeth | Byddwn yn gwella mynediad at ein tirweddau dynodedig a'r defnydd o asedau amgylcheddol |
| Llesiant Meddyliol | Wrth fuddsoddi yn ein hasedau naturiol, byddwn yn mynd ati i gynyddu'r buddion iechyd ehangach gallant eu sicrhau |

7.7 Yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur drwy newid y ffordd rydym yn buddsoddi mewn seilwaith traddodiadol, mae rôl hollbwysig y gall buddsoddi parhaus mewn "seilwaith gwyrdd" ei chwarae i sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol amrywiol yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn hanfodol i wrthdroi effeithiau colli bioamrywiaeth ac mae angen iddynt fod wrth galon addasu i newid hinsawdd.

7.8 Mae bioamrywiaeth yn sail i weithrediad iach ecosystemau a'u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol neu fanteision i'n llesiant. Mae colli bioamrywiaeth yn parhau i ddiraddio'r gwasanaethau hyn, fel darparu dŵr glân, dylanwadu ar yr hinsawdd, perygl llifogydd, iechyd pridd i gynhyrchu bwyd a llawer mwy. Bydd adfer natur yn sicrhau bod gennym blaned iach sy'n sicrhau manteision sy'n hanfodol i bawb. Bydd buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau rhyngwladol a nodir yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang a'n Bil arfaethedig a fydd yn cyflwyno targedau bioamrywiaeth domestig.

7.9 Bydd y £12.5m a ddyrennir drwy Gyllideb Ddrafft 2025-26 yn buddsoddi'n uniongyrchol yn ein huchelgais i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ar draws ein gwlad. Bydd ein rhaglen Rhwydweithiau Natur yn parhau i wella cyflwr, cysylltedd a chadernid ein rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig, ar yr un pryd â chreu cyfleoedd i'n rhywogaethau sydd mewn perygl ffynnu.

7.10 Bydd ein Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn parhau â'n gwaith adfer ar 600-800 hectar o fawndir sydd wedi dirywio er mwyn atal allyriadau a galluogi mawndiroedd sy'n dal ac yn storio carbon, gan ddiogelu tua 834,000 tunnell o stoc carbon. Mae mawndiroedd mewn cyflwr da yn cyflenwi gwasanaethau ecosystem effeithiol iawn ac yn darparu'r amodau gorau ar gyfer eu bioamrywiaeth nodweddiadol.

7.11 Mawndiroedd yw'r storfa ddaearol fwyaf o garbon fesul uned, gydag amcangyfrif o 7 miliwn tunnell o garbon yn cael eu storio mewn mawn dwfn ar draws ystad Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru. Bydd rhagor o fuddsoddiad yn cynnal y storfa garbon hon ac yn sicrhau bod mawndiroedd yn aros yn iach.

### Grantiau Amgylcheddol

| | |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | Byddwn yn gwella mynediad at ein tirweddau dynodedig a'r defnydd o asedau amgylcheddol |
| Bioamrywiaeth | Bydd ein buddsoddiadau, gan gynnwys ein hagenda trawsnewid trefi, yn ehangu mannau gwyrdd Cymru. |
| Llesiant Meddyliol | Wrth fuddsoddi yn ein hasedau naturiol, byddwn yn mynd ati i gynyddu'r buddion iechyd ehangach gallant eu sicrhau |

**7.12** Fe wnaethom sefydlu'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i greu ac i wella ein mannau gwyrdd er mwyn i'n hadnoddau naturiol cyfoethog fod ar gael am genedlaethau i ddod.

**7.13** Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur bellach ar ei bumed flwyddyn ac rydym wedi dyrannu £12.564m yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 i barhau i gyflawni'r rhaglen. Mae dyrannu llai o gyllid i Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn dangos arwyddocâd y pwysau mewn mannau eraill, gan gynnwys ansawdd dŵr.  Fodd bynnag, mae lefel sylweddol y buddsoddiad yn cydnabod gwerth y rhaglen.

**7.14** Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n glir ar wella ac adfer bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol, gan gefnogi plannu coed, ehangu cyfleoedd cymunedol a hamdden ar yr un pryd â gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig.

**7.15** Bydd yn cyflawni nifer o allbynnau sy'n ymwneud â'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys cynlluniau peilot presgripsiynu cymdeithasol, creu rhandiroedd, tyfu bwyd yn lleol a chreu mannau gwyrdd hygyrch yn lleol.

### Tirwedd a Hamdden Awyr Agored

| | |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | Byddwn yn gwella mynediad at ein tirweddau dynodedig a'r defnydd o asedau amgylcheddol |
| Chwaraeon | Bydd ein buddsoddiadau cyfalaf strategol yn ein tirweddau naturiol yn adlewyrchu'r rôl allweddol maen nhw'n ei chwarae yn galluogi hamdden |
| Bioamrywiaeth | Byddwn yn buddsoddi mewn rhwydweithiau ecolegol cadarn |

**7.16** Mae'r amgylchedd naturiol yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi llesiant corfforol a meddyliol y genedl. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy sefydledig er mwyn i'n Tirweddau Dynodedig a'n seilwaith mynediad cefn gwlad ehangach allu cefnogi ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ac i newidiadau yn anghenion ac ymddygiad ymwelwyr, yn ogystal â hyrwyddo mynediad i'r awyr agored i bawb. Mae'r gweithgareddau'n cyflawni ein blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n cwmpasu camau gweithredu cadarnhaol ar newid hinsawdd ac adfer natur; gwella'r ddarpariaeth twristiaeth gynaliadwy; a gwella mynediad at gefn gwlad a natur; yn ogystal â chyfrannu at well llesiant meddyliol a chorfforol.

**7.17** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £8.9m i'n rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy. Mae elfen Tirwedd Ddynodedig y rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio, adfer natur a

phrosiectau twristiaeth gynaliadwy yn ein Parciau Cenedlaethol a'n Tirweddau Cenedlaethol (sydd hefyd yn cael eu galw yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol).

7.18 Mae elfen hamdden awyr agored Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy yn rhoi buddsoddiad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Llwybr Arfordir Cymru, Llwybrau Cenedlaethol, rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, tir mynediad agored a mannau gwyrdd. Mae Llwybr Arfordir Cymru a'n Llwybrau Cenedlaethol yn darparu rhai o brif gynnyrch twristiaeth Cymru a byddwn yn parhau i sicrhau bod yr asedau cenedlaethol hyn yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo'n ganolog. Ochr yn ochr â hyn, bydd rhagor o fuddsoddiadau yn ein rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cynnal ac yn uwchraddio ein rhwydwaith o lwybrau hamdden sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr ac sydd ar gael yn rhad ac am ddim. Byddwn hefyd yn cefnogi buddsoddiad mewn rhandiroedd lleol sy'n arwain at fanteision iechyd corfforol a meddyliol i ddefnyddwyr, yn ogystal â mynediad at fwyd iach.

7.19 Bydd ein Tirweddau Dynodedig yn cefnogi ein hymrwymiad i gyflawni economi sero net drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Byddant hefyd yn cefnogi ein targed bod 45% o deithiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040 drwy annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a hyrwyddo cerdded a beicio i staff, i ymwelwyr ac i ddefnyddwyr gwasanaethau.

### Strategaeth Ddiwydiannol Pren a Choedwig Genedlaethol

| | |
|---|---|
| Biodiversity | We will invest in creating and enhancing Welsh woodlands |
| Air and Water Quality | We will promote air quality improvements when investing in woodland. |
| Decarbonisation | Investment in natural capital will support carbon sequestration and storage |
| Sport | In making strategic capital investments in our natural landscapes, we will reflect the important role they play in enabling recreation. |

7.20 Yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i greu Coedwig Genedlaethol o ogledd Cymru i dde'r wlad, fe wnaethom ddechrau cyflwyno ein rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn 2020. Mae'r rhaglen yn creu rhwydwaith o goetiroedd ledled Cymru a fydd yn:

- Rhoi lle ar gyfer hamdden a natur
- Helpu i ddal a storio carbon
- Darparu pren – adnodd cynaliadwy i adeiladu

7.21 Mae cyhoeddi Strategaeth Ddiwydiannol Pren yn ymrwymiad allweddol arall gan y Rhaglen Lywodraethu a fydd yn cael ei gefnogi gan y maes buddsoddi hwn.

7.22 Roedd Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £9.31m arall i gefnogi ehangu'r Goedwig Genedlaethol yn ogystal â buddsoddi yn y sector coedwigaeth. Bydd cyllid yn cael ei roi i Cyfoeth Naturiol Cymru i barhau i gyflawni'r cynllun Statws Coedwig Genedlaethol. Bydd rhagor o fuddsoddiadau'n cael eu gwneud hefyd

i’r Grant Buddsoddi mewn Coetir sy’n cefnogi’r gwaith o greu, adfer ac ehangu coetiroedd yng Nghymru. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dal i gael cyllid i gefnogi’r gwaith o gynnal a chadw a gwella safleoedd presennol yng Nghoedwig Genedlaethol Cymru ac sy’n dod i mewn iddi o dan gynllun Ystad Coetir Llywodraeth Cymru.

**7.23** Ochr yn ochr â hyn, mae ein buddsoddiad ym mhrosiect Cartrefi o Bren Lleol 2, yn golygu bod Woodknowledge Wales yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu a sefydlu’r Goedwig Genedlaethol, gan ddarparu arbenigedd a datblygu ffyrdd y gall y Goedwig Genedlaethol gyflenwi pren adeiladu o ansawdd uchel, gan arwain at fanteision hamdden ac iechyd ar yr un pryd. Mae Woodknowledge Wales wedi datblygu cyfres o astudiaethau achos, gan gynnwys un sy’n tynnu sylw at ddull amgen Cyfoeth Naturiol Cymru o werthu pren, gan fynd â phren o goedwig hysbys i brosesydd hysbys a’i symud ymlaen i brosiect hysbys.

**7.24** Mae buddsoddi yn ein hasedau naturiol yn gyfle unigryw i fynd i’r afael ag allyriadau sy’n cael eu creu drwy sectorau seilwaith eraill ochr yn ochr â gwelliannau mewn bioamrywiaeth a mynediad at natur.

# Pennod 8: Datblygu Economaidd

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Cymorth Busnes | 55,493 |
| Economi Gylchol | 41,853 |
| Bargeinion Dinesig a Thwf | 110,477 |
| Banc Datblygu Cymru | -1,500 |
| Seilwaith Digidol | 20,000 |
| Seilwaith Eiddo | 33,014 |
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | 15,000 |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 6,783 |
| Y Cymoedd Technoleg | 5,000 |
| **Cynfanswm y Sector Datblygu Economaidd** | **286,120** |

## Cymorth Busnes

| | |
|---|---|
| Cyflogaeth | Byddwn yn cryfhau ein cymorth cyfalaf strategol i fusnesau er mwyn sicrhau bod swyddi a bywoliaethau yn cael eu creu, a'u diogelu |
| Datgarboneiddio | Bydd ein buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru yn cefnogi'r newid i economi carbon sero net |
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Byddwn yn cefnogi busnesau i sicrhau'r diogelwch, y sefydlogrwydd a'r cyfleoedd y gall gwaith teilwng a theg eu darparu |
| Defnydd Anghynaliadwy | Byddwn yn cefnogi busnesau preifat i fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi economi ddiwastraff |
| Incwm Aelwydydd | Byddwn yn defnyddio ein cymorth cyfalaf uniongyrchol i fusnesau yng Nghymru i gynyddu incwm aelwydydd |

8.1 Bydd ein Cronfa Dyfodol yr Economi yn parhau i fod yn hanfodol o ran cefnogi busnesau ar hyd a lled Cymru. Mae'r gronfa yn darparu buddsoddiadau amrywiol i helpu i greu swyddi drwy gyllid penodol i sectorau a chyllid ad-daladwy i fusnesau bach a chanolig. Ers lansio'r gronfa ym mis Mai 2018, mae dros 400 cynnig o gymorth wedi cael eu derbyn, gwerth dros £115m.

8.2 Rydym wedi neilltuo £55.493m arall i'r Gronfa yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 i barhau i gefnogi busnesau ledled Cymru. Bydd y Gronfa'n hwyluso buddsoddiadau busnes wedi'u targedu mewn meysydd blaenoriaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar greu economi fwy teg, gwyrdd a chynaliadwy i Gymru. Un o'r ffactorau cyfrannol pwysicaf yn hyn o beth fydd defnyddio technolegau digidol, ac rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd a fydd yn caniatáu i dechnoleg, a busnesau sy'n defnyddio technoleg, ffynnu.

8.3 Er bod y gronfa wedi'i llunio'n bennaf i sicrhau manteision economaidd, mae'n rhan annatod o'n Contract Economaidd yn unol ag ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu. Rhaid i fuddsoddiadau a wneir drwy'r Gronfa gwmpasu'r manteision gwerth cymdeithasol rydym yn eu disgwyl o ymyriadau'r sector cyhoeddus gyda busnesau yng Nghymru.

8.4 Mae'r contract yn herio busnesau i wneud mwy i gyfrannu at ein blaenoriaethau strategol, gan gynnwys cynnig cyflogaeth deg o ansawdd uchel, caniatáu i bobl

gael mynediad at incwm teg heb unrhyw gamfanteisio na thlodi, a chefnogi'r newid i economi carbon isel sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd.

8.5 Drwy'r Contract Economaidd, rydym yn sbarduno newidiadau eraill mewn ymddygiad drwy gyflwyno addewidion datblygu. Rydym yn gofyn i bob busnesau sy'n gweithio gyda ni wneud rhwng tair a phum addewid i wneud pethau'n wahanol, neu i ddatblygu ymrwymiadau presennol ymhellach ac yn gyflymach. Felly, byddwn yn trafod cadernid amgylcheddol a charbon isel gyda 100% o sefydliadau, a'n huchelgais yw y bydd o leiaf 50% o gontractau economaidd yn cynnwys o leiaf un addewid i leihau allyriadau neu i allu dygymod yn well â'r newid yn yr hinsawdd erbyn 2025.

8.6 Rydym yn gweithio gyda busnesau i gyflwyno achosion ar gyfer buddsoddi sy'n cyd-fynd â'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol y cytunwyd arnynt mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â blaenoriaethau penodol sy'n seiliedig ar leoedd. Mae hyn yn golygu cefnogi prosiectau sy'n cyd-fynd â'r camau i ddatgarboneiddio'r diwydiant ar yr un pryd â chreu swyddi lleol gwerth uchel.

8.7 Rydym wedi hwyluso buddsoddiad sylweddol dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys £12m i Jayplas yn Abertawe a ddyblodd y capasiti ailgylchu plastig yng Nghymru, a £13m i Eren Holdings yng Ngogledd Cymru fel rhan o brosiect gwerth £1.2bn, sy'n ailgyfeirio dros 70% o allforion papur i'w hailgylchu yn yr hyn a oedd y buddsoddiad preifat mwyaf y mae Cymru wedi'i weld ers blynyddoedd lawer.

## Economi Gylchol

| | |
|---|---|
| Ansawdd Aer a Dŵr | Bydd ein buddsoddiadau yn yr economi gylchol yn arwain at wella ansawdd aer a datgarboneiddio. |
| Defnydd Anghynaliadwy | Byddwn yn cefnogi busnesau preifat i fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi economi ddiwastraff |
| Defnydd Anghynaliadwy | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith atgyweirio ac ailddefnyddio i hyrwyddo egwyddorion economi gylchol |
| Gwasanaethau Allweddol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith cymunedol sy'n helpu dinasyddion i leihau gwastraff. |

8.8 Gan fod ~45% o'n hallyriadau defnydd yn dod o'r nwyddau a'r cynnyrch rydym yn eu defnyddio bob dydd, mae trawsnewid i economi gylchol – lle rydym yn dal ati i ddefnyddio adnoddau cyn hired ag sy'n bosibl ac yn osgoi pob gwastraff – yn rhan greiddiol o'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a chyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i 'Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl'.

8.9 Ar draws y sectorau domestig, diwydiannol, masnachol ac adeiladu a dymchwel, ar hyn o bryd mae Cymru'n cynhyrchu tua 9 miliwn tunnell o wastraff. Drwy ein rhaglenni gwaith, gan gynnwys y rhai lle rydym yn cydweithio â llywodraethau eraill, ein nod yw symud at economi gylchol, sero net, gan ddefnyddio'r hierarchaeth gwastraff i arwain ein camau gweithredu wrth i ni weithio i drawsnewid yr economi drwyddi draw. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r

afael â’r sector gwastraff ei hun, sydd ag ôl troed carbon domestig o tua 1.5 MtCO2e o allyriadau blynyddol yn ogystal â bod yn allweddol i alluogi datgarboneiddio ar draws pob sector.

**8.10** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £41.853m i’r maes buddsoddi hwn, wedi’i anelu’n bennaf at awdurdodau lleol. Mae buddsoddi mewn seilwaith yn cynnwys cymysgedd o’r gweithgareddau canlynol gan gynnwys: buddsoddi mewn Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff; cerbydau allyriadau isel iawn; seilwaith ailgylchu; cyfleusterau atgyweirio ac ailddefnyddio; seilwaith ynni adnewyddadwy (i ddatgarboneiddio gweithrediadau gwastraff ac ailgylchu) a’r seilwaith sydd ei angen i gefnogi’r gwaith o gyflawni mentrau polisi. Hyd yma, amcangyfrifir bod perfformiad ailgylchu awdurdodau lleol Cymru o ganlyniad i’n buddsoddiadau mewn seilwaith yn arbed 400,000 tunnell o allyriadau Carbon Deuocsid y flwyddyn.

**8.11** Rydym hefyd yn hybu buddsoddiad gan y sector preifat mewn meysydd allweddol o’r seilwaith economaidd sydd ei angen i drawsnewid i economi gylchol. Mae buddsoddiadau diweddar yn cynnwys Jayplas yn Abertawe, cwmni ailgylchu plastigau, ac Eren Holdings yng Nglannau Dyfrdwy, sy’n ailgylchu lot fawr o bapur.

### Bargeinion Dinesig a Thwf

| | |
|---|---|
| Buddsoddi yng Nghymru | Wrth fuddsoddi'n strategol yn ein rhaglenni adfywio, byddwn yn sicrhau y gwneir hynny mewn modd sy'n ystyried Cymru gyfan. |

**8.12** Mae Bargeinion Dinesig a Thwf dan arweiniad partneriaid rhanbarthol yn buddsoddi mewn adeiladau a chyfleusterau i gefnogi swyddi nawr ac ar gyfer diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Maent yn buddsoddi i adeiladu economïau cryfach a gwyrddach wrth i ni drosglwyddo tuag at ddyfodol sero net a digarbon, tra'n diogelu swyddi. Mae pedair bargen dinesig a thwf rhanbarthol yng Nghymru, sef Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe; Bargen Twf y Gogledd a Bargen Twf y Canolbarth.

**8.13** At ei gilydd, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi dros £795m dros 15-20 mlynedd yn y pedair bargen yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymrwymo i fuddsoddi £791m yn y bargeinion dros 10-15 mlynedd. Rhagwelir y bydd cyfanswm y buddsoddiad, cyhoeddus a phreifat, ar draws y pedair bargen dros £7.5bn.

**8.14** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £22m ar gyfer y pedair bargen. Mae Llywodraeth y DU wedi darparu £88m arall, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad arfaethedig yn 2025-26 i £110m ar draws y pedwar bargeinion. Mae'r cyfraniad hwn yn cefnogi pwyllgorau rhanbarthol i gyflawni'r canlyniadau a'r allbynnau a nodwyd yng nghytundebau'r bargeinion, a'r achosion busnes portffolio perthnasol.

### Banc Datblygu Cymru

| | |
|---|---|
| Cyflogaeth | Drwy ein buddsoddiadau a wneir drwy Fanc Datblygu Cymru, byddwn yn sicrhau bod ein cymorth i fusnesau yn gwireddu'n glir weledigaeth y Llywodraeth o economi werdd a chynhwysol |
| Cynhyrchiant Busnesau | Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein buddsoddiad cyfalaf strategol mewn busnesau yng Nghymru i sicrhau gwelliannau yng nghynhyrchiant ein diwydiannau |

**8.15** Fe wnaethom sefydlu Banc Datblygu Cymru i gefnogi economi Cymru, gan ei gwneud hi'n haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen arnynt i gychwyn, i gryfhau ac i dyfu. Mae ein hymrwymiad i amcanion Banc Datblygu Cymru wedi'i nodi'n glir yn ein haddewid yn y Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r defnydd o gyfalaf tymor estynedig ar gyfer busnesau drwy ddyled ac ecwiti.

**8.16** Drwy ddarparu cyllid i fusnesau, yn ogystal â buddsoddi yn y sector eiddo, gan gynnwys darparu Cymorth i Brynu - Cymru, mae'r banc wedi nodi ei uchelgais yn ei Gynllun Corfforaethol 2022-27 i greu effaith o £1.2bn ar economi Cymru, gyda'r nod o gefnogi dros 2,200 o fusnesau a chreu a diogelu dros 20,000 o swyddi.

**8.17** Dros y cyfnod hwn, mae gan Fanc Datblygu Cymru uchelgais i fuddsoddi dros £650m yn uniongyrchol mewn dyled ac ecwiti i gefnogi anghenion busnes o fuddsoddi micro i gynllunio ar gyfer olyniaeth. Bydd ystod a graddfa'r cymorth a gynigir gan ei gronfa hollbwysig, Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru, yn sicrhau bod gan fusnesau ledled Cymru fynediad parhaus at gyllid ymhell i'r tymor hir. Mae Adroddiad Blynyddol 2023-24 yn nodi sut mae Banc Datblygu Cymru yn gwneud cynnydd cadarn tuag at ei dargedau, gyda 430 o fusnesau yn elwa o 491 o fuddsoddiadau gwerth £125.2m.

**8.18** Ar ben hynny, bydd Banc Datblygu Cymru hefyd yn buddsoddi tua £290m yn uniongyrchol mewn datblygwyr tai busnesau bach a chanolig i ddarparu dros 2100 o gartrefi newydd yng Nghymru. Bydd Banc Datblygu Cymru yn defnyddio'r cyfle hwn i gyflwyno strwythurau cyllido arloesol i helpu i sbarduno datblygwyr i symud i adeiladu cartrefi gwyrdd.

**8.19** Mae Banc Datblygu Cymru yn cefnogi'r newidiadau sydd eu hangen i ymddygiad busnesau er mwyn cyflawni nodau sero net, gwreiddio rhinweddau sero net mewn cronfeydd presennol a gweithio gyda thrydydd partïon i ystyried atebion newydd o ran cyllid. Enghreifftiau o hyn yw'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd a'r Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd i gefnogi dulliau gwyrdd o adeiladu tai. Mae Banc Datblygu Cymru yn parhau i weithio gyda'i bortffolio presennol yn ogystal â chefnogi cwsmeriaid newydd i ganolbwyntio ar eu rhinweddau amgylcheddol, gan gynhyrchu ymchwil i gefnogi polisi ac arwain drwy esiampl wrth gyflawni ei gynllun ei hun i leihau carbon.

## Seilwaith Digidol

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Allweddol | Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith digidol i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy mewn rhannau o Gymru nad yw'r farchnad yn darparu ar eu cyfer |
| Cynhyrchiant Busnesau | Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol mewn cymunedau ledled Cymru i alluogi busnesau i elwa ar gysylltedd digidol cyflym a dibynadwy |
| Gweithgareddau Diwylliannol | Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith digidol yn sicrhau bod ein sefydliadau diwylliannol yn y sefyllfa orau i reoli'r newid technolegol parhaus |

**8.20** Mae cysylltedd digidol cyflym a dibynadwy yn sail i gymdeithas fodern gan alluogi busnesau i gyrraedd cwsmeriaid ledled y byd, gwella effeithlonrwydd a chroesawu ffyrdd newydd o weithio. Ar gyfer cartrefi mae'n caniatáu i bobl weithio gartref, yn helpu i fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol ac yn darparu mynediad at ystod eang o nwyddau a gwasanaethau. Ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector, mae'n ei gwneud yn bosibl i wasanaethau newydd gael eu datblygu a'u darparu.

**8.21** Er bod gan y mwyafrif helaeth o gartrefi, busnesau ac adeiladau cyhoeddus ledled Cymru fynediad at gysylltedd digidol o ansawdd da, mae yna rai sy'n parhau i gael trafferthion gyda hyd yn oed y cysylltiadau mwyaf sylfaenol. Dyna pam mae ein Rhaglen Lywodraethu'n ein hymrwymo i gyflawni'r Strategaeth Ddigidol i Gymru ac uwchraddio ein seilwaith digidol a chyfathrebu.

**8.22** Llywodraeth y DU sydd â'r prif gyfrifoldeb dros seilwaith digidol ledled y DU ac mae'n darparu ei menter "Prosiect Gigabit" gwerth £5bn yng Nghymru i ddarparu cysylltedd gigabit cyflym i'r cymunedau hynny na fydd y farchnad ei hun yn darparu ar eu cyfer. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod ei buddsoddiad yn diwallu anghenion cartrefi a busnesau yng Nghymru.

**8.23** Er nad yw telathrebu wedi'i ddatganoli i Gymru, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn atebion i gefnogi'r rheini heb fynediad at fand eang cyflym a dibynadwy. Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £20m i'r ardal fuddsoddi hwn. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy i gartrefi a busnesau sy'n anoddach eu cyrraedd drwy ymyrraeth newydd, sef prosiect Ymestyn Band Eang Cyflym. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu ein cynllun grant Allwedd Band Eang Cymru, sy'n darparu grantiau i ariannu (neu ariannu'n rhannol) costau gosod cysylltiadau band eang newydd ar gyfer cartrefi a busnesau yng Nghymru sydd angen cymorth cyflym.

**8.24** Drwy gefnogi gweithio o bell drwy sicrhau bod gan gartrefi a busnesau ledled Cymru fynediad at seilwaith digidol cyflym a dibynadwy, gall ein buddsoddiadau leihau'r angen i deithio. I'r gwrthwyneb, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o ofynion ynni cynyddol y seilwaith digidol sy'n pweru ein cysylltedd digidol a'r gwasanaethau digidol yr ydym i gyd yn eu defnyddio. O ran cyflenwi'r seilwaith ei hun, bydd gofyn i'r contractwyr ar gyfer rhaglenni mawr – er enghraifft Prosiect Gigabit – ystyried eu hallyriadau Cwmpas 1 a 2 (adeiladau, pŵer, ynni, trafnidiaeth) fan leiaf. Mae angen gwneud gwaith ychwanegol mewn cysylltiad

ag allyriadau Cwmpas 3 (cyflenwad) a byddwn yn gweithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn hyn o beth.

### Seilwaith Eiddo

| | |
|---|---|
| Cyflogaeth | Bydd ein buddsoddiadau strategol yn y sector eiddo masnachol yn ceisio mynd i'r afael â chyflenwad cyfyngedig, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddenu a chadw buddsoddiad |
| Cynhyrchiant Busnesau | Bydd buddsoddi mewn seilwaith eiddo masnachol sydd wedi'i leoli'n briodol yn galluogi twf yng nghynhyrchiant busnesau |
| Buddsoddi yng Nghymru | Denu a chadw buddsoddiad na fyddai fel arall yn dod i Gymru nac yn cael ei ailfuddsoddi yng Nghymru. |

**8.25** Mae'n hollbwysig buddsoddi mewn safleoedd ac eiddo modern i ganiatáu i fusnesau ehangu a thyfu. Gwyddom fod buddsoddi mewn seilwaith eiddo modern yn rhoi cyfle i fusnesau presennol wella cynhyrchiant, a gallwn chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau bod cyflenwad o safleoedd o'r radd flaenaf, sy'n barod am fuddsoddiad ac eiddo sy'n effeithlon o ran ynni, ar gael i fusnesau cynhenid a mewnfuddsoddwyr.

**8.26** Bydd y dyraniad o £33.014m yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi mewn eiddo masnachol, pan fo tystiolaeth o ddiffyg yn y farchnad. Bydd yn ein galluogi i ddenu a chadw buddsoddiad na fyddai'n dod i Gymru na'n cael ei ailfuddsoddi yng Nghymru fel arall, gan ddylanwadu ar benderfyniadau masnachol ar yr un pryd er mwyn cyflawni amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach. Ar y cyd â phartneriaid cyhoeddus a phreifat, rydym yn anelu at sicrhau 150,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr masnachol newydd bob blwyddyn, yn unol â'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Cyflawni Eiddo.

**8.27** Nod ein buddsoddiad mewn eiddo masnachol, sydd wedi'i ddylunio'n bennaf i gyflawni polisi economaidd, yw sicrhau bod darpariaeth hefyd ar gael yn unol ag ystyriaethau polisi ehangach, gan gynnwys datgarboneiddio, manteision amgylcheddol a bioamrywiaeth a dull gweithredu canol trefi yn gyntaf. Mae capasiti gweithleoedd uwch, er enghraifft, mewn trefi marchnad ac aneddiadau llai yn sbardun pwysig ar gyfer creu a diogelu bywiogrwydd cymunedau lleol.

**8.28** Bydd pob prosiect masnachol a adeiladwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru drwy ein Cynllun Cyflawni Eiddo yn anelu at gyflawni safon gweithredu carbon sero net. Bydd gofyn i bob prosiect sy'n derbyn cyllid o dan y cynllun gydymffurfio â'n Polisi Adeiladau Cynaliadwy. Gan dybio bod adeiladau o dan y Polisi Adeiladau Cynaliadwy yn gweld gwelliant o 10%, a bod y rhai sy'n cael eu hadeiladu i gyflawni safon gweithredu carbon sero net yn cynhyrchu allyriadau sero wrth weithredu, asesir y byddai'r allyriadau carbon yn sgil y Cynllun Cyflawni Eiddo dros gyfnod y gyllideb tua 300tCO2 y flwyddyn.

**8.29** Mae buddsoddi mewn seilwaith eiddo yn cyd-fynd yn agos iawn â ffrydiau buddsoddi seilwaith eraill. Er enghraifft, mae argaeledd safleoedd ac adeiladau sy'n barod am fuddsoddiad yn rhagofyniad ar gyfer llawer o brosiectau sy'n ceisio cymorth ariannol naill ai gan Fanc Datblygu Cymru neu Gymorth Busnes i fwrw ymlaen. Heb y 'cynhwysyn amrwd' hwnnw, gall y costau a'r amserlenni

ar gyfer cyflawni prosiectau olygu nad yw prosiectau'n hyfyw. Mae hyn yn arbennig o wir mewn lleoliadau mwy ymylol yng Nghymru, fel ardal y Cymoedd Technoleg lle mae'r ffrydiau buddsoddi yn ategu ei gilydd ac wedi helpu i greu 298,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr newydd ac wedi'i adnewyddu, sy'n gallu darparu ar gyfer tua 600 o swyddi.

### Gwyddoniaeth ac Arloesi

| | |
|---|---|
| Cynhyrchiant Busnesau | Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein buddsoddiad cyfalaf strategol mewn busnesau yng Nghymru i sicrhau gwelliannau yng nghynhyrchiant ein diwydiannau |
| Cynhyrchiant Busnesau | Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith yn helpu busnesau yng Nghymru i fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau ac i osgoi gwastraff diangen |
| Datgarboneiddio | Bydd ein buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru yn cefnogi'r newid i economi carbon sero net |
| Defnydd Anghynaliadwy | Byddwn yn cefnogi cyrff cyhoeddus i fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi economi ddiwastraff |

**8.30** Mae parhau i dyfu economi sy’n seiliedig ar wybodaeth ar sail buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu, yn ogystal ag arloesi, yn un o’r ffactorau cydnabyddedig sy’n sbarduno cynhyrchiant, gan helpu i greu swyddi o ansawdd a thwf cynaliadwy. Mae’n rhaid i ni barhau i fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesi o’r radd flaenaf i gynyddu capasiti a galluogrwydd, a fydd yn ysgogi gwell effeithlonrwydd, defnyddio llai o ynni, defnyddio deunyddiau cynaliadwy, llai o wastraff, ac yn arwain at fabwysiadu egwyddorion economi gylchol.

**8.31** Mae’r Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i fwrw ymlaen â’n Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu’r Economi yng Nghymru, i gyflawni ein rhaglen 10 mlynedd, y Cymoedd Technoleg, ac i helpu meysydd allweddol o’n heconomi i arloesi, i dyfu ac i leihau eu hôl troed carbon.

**8.32** Rydym wedi neilltuo £15m yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 i barhau i gefnogi ein rhaglen arloesi ac ymchwil, Cymorth Arloesi Hyblyg SMART (SFIS), i gefnogi meysydd technoleg newydd, gan gynnwys technoleg ynni adnewyddadwy fel ynni llanw a thechnolegau sy’n ymwneud â bioamrywiaeth, yn ogystal â heriau cymdeithasol eraill sy’n ein hwynebu. Bwriad ein buddsoddiad yw sicrhau bod sefydliadau Cymru yn gallu denu cydfuddsoddiad sylweddol i helpu i ddatblygu cynigion o ansawdd i’w cyflwyno i gystadlaethau cyllid y DU a’r UE. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau trosglwyddo gwybodaeth ac yn cefnogi rhagor o arloesi wrth ddarparu gwasanaethau’r sector cyhoeddus drwy brosesau caffael sydd wedi’u harwain gan her.

**8.33** Mae dadansoddiad monitro cynnar o’r dyfarniadau SFIS cyntaf yn dangos gorgyffwrdd amlwg ag elfennau eraill o’r Cynllun Cyllid Seilwaith. Er enghraifft, roedd y dyfarniadau cyntaf gwerth £844,000 wedi denu £950,000 o fuddsoddiad ychwanegol gan Fanc Datblygu Cymru, yn ogystal â £3,057,000 o gyllid gan y sector preifat. Hefyd, mae swm sylweddol o gyllid Ymchwil a Datblygu yn digwydd gyda chwmnïau sydd naill ai wedi’u lleoli mewn buddsoddiadau Seilwaith Eiddo (er enghraifft, M-Sparc, Ynys Môn) neu fel cydweithrediadau â Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg (er enghraifft, AMRC, Glannau Dyfrdwy).

8.34 Er mwyn cyflawni uchelgeisiau sero net Cymru, mae angen i ni gael gafael ar y dystiolaeth orau, er mwyn i ni allu deall maint a chymhlethdod y problemau a'r posibilrwydd o gael atebion polisi technolegol ac ymddygiadol, er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Deall y wyddoniaeth yw'r cam cyntaf hanfodol o hyd i lywio opsiynau polisi y gellir eu cyflawni a fydd yn gwneud gwahaniaeth yng Nghymru ac yn y byd ehangach. Mae'r angen am wyddoniaeth gydlynol a system arloesi ehangach sy'n cynnwys datblygu technegau, cynnyrch a gwasanaethau newydd i ddarparu Cymru carbon isel i ddigarbon yn rhan greiddiol o'n strategaeth Sero Net a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Bydd asesiadau o brosiectau yn cynnwys ystyriaeth fanylach o'r effaith ar yr amgylchedd, ac rydym yn parhau i wella'r offer a ddefnyddiwn i asesu effaith prosiectau o ran yr amgylchedd a charbon.

### Seilwaith Strategol

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Allweddol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n galluogi rhwydwaith sefydlog a chyd-drefnus o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus |
| Cyflogaeth | Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a mathau eraill o seilwaith yn gwella mynediad at gyfleoedd swyddi ac yn ei gwneud hi'n bosibl lleoli swyddi'n gynaliadwy |
| Cynhyrchiant Busnesau | Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith cyhoeddus yn ei gwneud hi'n bosibl sicrhau'r buddion o ran cynhyrchiant sy'n gysylltiedig â datblygiadau busnes newydd sy'n canolbwyntio ar ganol trefi. |

8.35 Mae ein buddsoddiad mewn datblygu seilwaith strategol yn canolbwyntio ar gyflawni prosiectau cyfalaf mawr drwy bartneriaethau a thrafodiadau masnachol, drwy ddefnyddio cyllid gan ffynonellau trydydd parti yn aml, fel Bargen Ddinesig Caerdydd, Llywodraeth y DU a'r sector preifat.

8.36 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau a gyflawnir drwy fuddsoddi yn y prosiectau cyfalaf mawr hyn, gan gynnwys datblygu'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghwm Dulais, buddsoddi mewn gwasanaethau bysiau a chyflawni prosiectau seilwaith bysiau mawr newydd, a bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer metro yng ngogledd Cymru a Bae Abertawe.

8.37 Rydym wedi neilltuo £6.783m yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 i'r maes buddsoddiad hwn. Ynghyd â'r gwariant yn y blynyddoedd a fu, bydd hyn yn galluogi buddsoddiad preifat yn y gwaith o ddatblygu technoleg rheilffyrdd newydd drwy'r ganolfan ragoriaeth uchod, a fydd yn cynnwys datblygu technolegau pŵer i ddisodli disel a gwella effeithlonrwydd trenau ag injan drydan.

8.38 Gellir defnyddio'r cyllid hefyd i helpu gyda buddsoddiad cyfalaf ym Mhorth Wrecsam. Nod yr ymyriad hwn o ran trafnidiaeth yw gwella ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus a'r mynediad ati, a chefnogi'r nod o newid dulliau teithio a symud oddi wrth geir preifat, a fydd yn hanfodol er mwyn cyrraedd targedau lleihau carbon.

## Y Cymoedd Technoleg

| | |
|---|---|
| Datgarboneiddio | Bydd ein buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru yn cefnogi'r newid i economi carbon sero net |
| Cynhyrchiant Busnesau | Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein buddsoddiad cyfalaf strategol mewn busnesau yng Nghymru i sicrhau gwelliannau yng nghynhyrchiant ein diwydiannau |
| Gwasanaethau Allweddol | Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith digidol i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy mewn rhannau o Gymru nad yw'r farchnad yn darparu ar eu cyfer |
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Byddwn yn cefnogi busnesau i sicrhau'r diogelwch, y sefydlogrwydd a'r cyfleoedd y gall gwaith teilwng a theg eu darparu |

**8.39** Mae Cymoedd Technoleg yn ymrwymiad gan y Rhaglen Lywodraethu gwerth £100 miliwn dros ddeng mlynedd (hyd at 2028) i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy, cynyddu cyflog wythnosol cyfartalog a gwerth ychwanegol gros sy'n canolbwyntio ar Flaenau Gwent, drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, annog mabwysiadu technolegau digidol, a datblygu technolegau datblygedig gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiannau arloesol fel 5G, technoleg batris, ac ymchwil i gerbydau modurol.  Mae effaith y buddsoddiad hwn yn cyrraedd holl ardaloedd Cymoedd y de

**8.40** Yn ôl y weledigaeth, erbyn 2027, bydd ardal Cymoedd y de yn cael ei chydnabod yn fyd-eang fel canolfan ar gyfer datblygu technolegau newydd sy'n cefnogi diwydiant arloesol.

**8.41** Cyflwynir y rhaglen drwy bortffolio o brosiectau sy'n tyfu'n organig dros amser:

- Manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y pedwerydd chwyldro diwydiannol.
- Cefnogi swyddi cynaliadwy, uchel eu gwerth, denu buddsoddiad a chreu cyfleoedd i ranbarth cyfan Cymoedd De Cymru.
- Creu amgylchedd dysgu a datblygu sgiliau wedi'i deilwra i'r hyn sydd ei angen ar fusnesau.

**8.42** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £5m i raglen y Cymoedd Technoleg. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar greu amgylchedd deniadol i gwmnïau technoleg leoli a datblygu, gan gynnwys drwy fuddsoddi mewn adeiladau a pharatoi tir i bontio'r bwlch hyfywedd, a chreu gofod newydd i entrepreneuriaid a busnesau newydd.

**8.43** Drwy fuddsoddi yn y tair colofn sef seilwaith, cymorth busnes a sgiliau, bydd y rhanbarth nid yn unig yn creu amgylchedd ffisegol lle gall cwmnïau gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg ffynnu ond hefyd yn galluogi diwydiannau presennol i symud i ddatblygu.

**8.44** Hyd yma, mae buddsoddiad y Cymoedd Technoleg wedi helpu i greu 298,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr newydd ac wedi'i adnewyddu, gan greu 600 o swyddi posib drwy ei gwneud hi'n bosibl gwneud defnydd economaidd o hen dir a gweithio gyda chwmnïau sy'n bodoli eisoes i helpu i wella cynhyrchiant a sgiliau, a thyfu'r hyn a gynhyrchir ar hyn o bryd.  Mae'n cefnogi gwydnwch, effeithlonrwydd a'r defnydd o dechnoleg mewn busnesau bach a chanolig eu

maint ac yn codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM ac yn hyrwyddo'r nifer sy'n astudio pynciau STEM yn yr ysgol ac ôl-16. Bydd y ffigur hwn yn parhau i dyfu wrth i'r prosiectau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ddwyn ffrwyth. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ganfod a datblygu prosiectau newydd gan gynnwys edrych ar gyfleoedd pellach i ddatblygu eiddo.

**8.45** Mae'r rhaglen yn cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau, gan gynnwys ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.

**8.46** Mae rhaglen y Cymoedd Technoleg yn cefnogi'r newid i economi carbon sero net yn ogystal â gweithio gyda busnesau i wella cynhyrchiant drwy amrywiaeth o brosiectau. Er enghraifft, drwy weithio gyda chydweithwyr Arloesi a Bwyd a chyda'r busnesau i gynnig grantiau ag arian cyfatebol sy'n galluogi prynu offer na fyddai'n fforddiadwy fel arall, ond a fydd yn dod â manteision mesuradwy yn y meysydd hyn.

# Pennod 9: Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth | 40,450 |
| Cadw | 16,321 |
| Creadigol | 7,000 |
| Chwaraeon | 9,516 |
| Twristiaeth | 6,700 |
| **Cyfanswm y Sector Twristiaeth** | **79,987** |

## Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau Diwylliannol | Bydd ein buddsoddiadau cyfalaf uniongyrchol yn y sector diwylliant yn darparu'r cyfleusterau o ansawdd uchel a'r mynediad sydd eu hangen i barhau i gyflawni cynnig diwylliannol unigryw Cymru |
| Gweithgareddau Diwylliannol | Bydd ein buddsoddiadau yn ein hasedau treftadaeth a diwylliannol yn gwneud y mwyaf o'r rôl y maent yn ei chwarae wrth gefnogi'r diwydiant twristiaeth yn ein cymunedau |
| Gweithgareddau Diwylliannol | Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith digidol yn sicrhau bod ein sefydliadau diwylliannol yn y sefyllfa orau i reoli'r newid technolegol parhaus |
| Gweithgareddau Diwylliannol | Bydd ein buddsoddiad yn ein hasedau treftadaeth yn adlewyrchu hanes unigryw Cymru, gan gydnabod gwerth cynhenid diogelu asedau o'r fath |

9.1 Mae diwylliant (gan gynnwys y Celfyddydau a Threftadaeth) yn ganolog i lawer o'n prif ymrwymiadau Raglen Lywodraethu sydd ag elfen gyfalaf sylweddol. Mae diwylliant yn hanfodol i'n bywydau yng Nghymru, ac mae'n cyfrannu'n fawr at les meddyliol a chorfforol pawb yng Nghymru, yn ogystal â'n haddysg, ein hanes, ein twristiaeth a'n lle yn y byd.

9.2 Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 wedi dyrannu £40.45m i leoliadau celfyddydol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf parhaus mewn nifer o brosiectau diwylliant allweddol a phroffil uchel megis Theatr Clwyd, yr Amgueddfa Bêl-droed, yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol ac Amgueddfa Genedlaethol y Gogledd. Bydd hefyd yn cefnogi gwaith brys a'r buddsoddiad ehangach sydd ei angen i ddiogelu a gwarchod trysorau, safleoedd ac asedau cenedlaethol Cymru, gan gynnwys yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae'r rhain yn brosiectau arwyddocaol i Gymru ac yn sicrhau cynnig cynaliadwy o ansawdd uchel i bobl ledled Cymru a fydd yn denu twristiaeth oddi mewn i'r wlad yn ogystal ag o'r tu allan.

9.3 Mae gennym gyfrifoldeb statudol i barhau i gefnogi ein cyrff diwylliannol cenedlaethol sy'n derbyn nawdd, yn ogystal â'r sectorau diwylliant lleol, sydd i gyd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu, y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a blaenoriaethau polisi ehangach. Ochr yn ochr â'n rhwymedigaethau statudol, rydym wedi gofyn i'r cyrff hyn barhau i roi blaenoriaeth i wella mynediad a mynd i'r afael ag

anghydraddoldebau, datgarboneiddio a gwelliannau digidol dros y flwyddyn nesaf, er mwyn cyd-fynd yn glir â diwylliant a blaenoriaethau ehangach.

9.4 Darperir buddsoddiad cyfalaf i'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol drwy nifer o fecanweithiau megis ein rhaglenni Grant Trawsnewid Cyfalaf a Gwella Cyfalaf Rheoli Casgliadau, a thrwy Gyngor Celfyddydau Cymru i'r sector celfyddydau, gan gynnwys theatrau. Bydd y cynlluniau hyn yn mynd i'r afael â nifer o ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, gan alluogi ystod ac amrywiaeth ehangach o geisiadau a gwell cyfatebiaeth â blaenoriaethau diwylliannol penodol a'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn ailedrych ar y cynlluniau hyn yn barhaus i'w gwella a sicrhau ffocws parhaus ar ddatgarboneiddio a thechnoleg ddigidol, mynd i'r afael â materion mynediad ac anghydraddoldebau gan ddarparu cefnogaeth i foderneiddio a symud tuag at gynaliadwyedd.

9.5 Bydd yr holl gyrff a noddir yn parhau i ddarparu gwybodaeth fanylach am allyriadau nwyon tŷ gwydr eu safleoedd yn eu hadroddiadau ariannol blynyddol. Mae datgarboneiddio yn ffocws allweddol a bydd yn parhau i fod yn ffocws allweddol wrth asesu achosion busnes ar gyfer yr holl fuddsoddiadau cyfalaf mawr a wneir.

## Cadw

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau Diwylliannol | Bydd y buddsoddiadau yn ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol yn gwneud y gorau o'u rôl o ran cefnogi'r diwydiant twristiaeth yn ein cymunedau |
| Llesiant Meddyliol | Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith sy'n cefnogi gweithgareddau diwylliannol yn creu manteision o ran llesiant meddyliol |
| Gweithgareddau Diwylliannol | Bydd ein buddsoddiadau cyfalaf uniongyrchol yn y sector diwylliant yn darparu'r cyfleusterau o ansawdd uchel a'r mynediad sydd eu hangen i barhau i gyflawni cynnig diwylliannol unigryw Cymru |

9.6 Mae Cymru'n elwa ar amrywiaeth helaeth ac unigryw sy'n cynnwys adeiladau, henebion a safleoedd archaeolegol sy'n dyddio o'r cynfyd i'r Rhyfel Oer. Mae'r asedau hanesyddol hyn yn gyfranwyr allweddol at lesiant diwylliannol. Mae llawer yn atyniadau craidd i dwristiaid hefyd – mae 13% o'r bobl o'r DU sy'n ymweld â Chymru am y dydd a 60% o'r rhai sy'n aros yn ymweld â chastell neu heneb hanesyddol. Mae Cadw wedi ymrwymo i gynnal ei gyfrifoldeb i gadw a chynnal a chadw ein henebion a, drwy wneud hynny, i gyfrannu at y nodau llesiant yn y Rhaglen Lywodraethu i ehangu mynediad at ein treftadaeth.

9.7 Mae ein Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn dyrannu £16.321m i gefnogi nifer o ffrydiau cyfalaf allweddol. Bydd y cyllid yn ariannu ein rhaglen cadwraeth a buddsoddi cyfalaf fanwl, uniongyrchol yn safleoedd Cadw, gan gynnwys Cam 2 Castell Caerffili a gwelliannau i'r seilwaith TGCh ym mhob canolfan ymwelwyr sydd wedi'i staffio. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i ariannu rhaglen o grantiau cyfalaf treigl Cadw, gan gefnogi gwaith ar asedau hanesyddol nad ydynt yn rhan o bortffolio uniongyrchol Cadw.

9.8 Cynhaliodd Cadw ddadansoddiad adran gyfan o'i lwyth carbon ar ddiwedd 2019 gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn awgrymu bod 339 tunnell o CO2 yn cael eu rhyddhau ar draws yr ystad.

Aseswyd pob un o'r 130 o henebion a bydd y pedwar safle gwaethaf yn destun prosiectau dros y ddwy flynedd nesaf i leihau eu hôl troed carbon. Mae'r prosiectau wedi cynnwys trawsnewid i fflyd drydan darparu a gosod mannau gwefru cerbydau trydan mewn depos gwaith a nifer o maes parcio cyhoeddus. Bydd Cadw yn parhau newid boeleri nwy aneffeithlon sydd wedi dyddio mewn canolfannau ymwelwyr am rai eraill heb allyriadau. Bydd gofyniad i ystyried lleihau carbon yn cael ei ychwanegu at y meini prawf ar gyfer dyfarnu grantiau.

### Creadigol

| | |
|---|---|
| Cynhyrchiant Busnesau | Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein buddsoddiad cyfalaf strategol mewn busnesau yng Nghymru i sicrhau gwelliannau yng nghynhyrchiant ein diwydiannau |
| Y Gymraeg | Bydd ein cymorth cyfalaf i'r sectorau twristiaeth, digwyddiadau a chreadigol yn cefnogi ein targedau ar gyfer y Gymraeg. |

9.9 Mae'r diwydiannau creadigol yn sector blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'r ystadegau diweddaraf o 2023 am y sectorau sy'n cael cymorth gan Cymru Greadigol yn dangos trosiant blynyddol o £1.5 biliwn dim ond yn 2023, cynnydd o fwy na 10% ers y flwyddyn flaenorol.

9.10 Mae ein Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys ymrwymiad i ystyried sefydlu corff sgiliau ar gyfer y diwydiannau creadigol ac i ystyried Cronfa Ymchwil a Datblygu ar gyfer y diwydiannau creadigol. Mae'r ddau beth hyn ar waith nawr.

9.11 Mae'r £7m sy'n cael ei ddyrannu drwy Gyllideb Ddrafft 2025-26 yn canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol. Yn gyntaf, bydd yn cyfrannu at ddatblygu'r ymrwymiad sgiliau yn y Rhaglen Lywodraethu drwy greu cyfleoedd i bawb a drwy helpu i ddenu cyllid cyfatebol i gyflawni'r ymrwymiad ymchwil a datblygu. Ond bydd hefyd yn ein galluogi i fuddsoddi'n uniongyrchol yn ein sectorau blaenoriaeth sef y sgrin, cerddoriaeth a digidol, gan helpu i dyfu'r diwydiannau creadigol ym mhob rhan o Gymru.

9.12 Drwy ddarparu cymorth cyfalaf i gynyrchiadau creadigol, mae Cymru wedi datblygu i gael ei hystyried yn lleoliad ffafriol iawn ar gyfer cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu mawr.

9.13 Ers 2020, rydym wedi buddsoddi, drwy Cymru Greadigol, £26.5m mewn cyllid cynhyrchu i gefnogi 47 o brosiectau, ac mae disgwyl dros £313m o wariant wedi'i bennu ar gyfer Cymru yn economi'r wlad. Mae'r gweithgarwch hwn wedi creu cyfle i hoelio sylw gweddill y byd ar Gymru. Rydyn ni hefyd wedi cefnogi 393 o leoliadau â thâl i hyfforddeion drwy brosiectau wedi'u hariannu gan Cymru Greadigol, gan gynnwys 40 o leoliadau â thâl i brentisiaid. Bydd tua £4m o'r gyllideb cyfalaf yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyllid cynhyrchu yn 2025-26, sy'n cynnwys teledu, animeiddiadau a gemau.

9.14 Drwy Ffilm Cymru, rydyn ni'n cefnogi ffilmiau Cymreig annibynnol, sy'n 'anghonfensiynol, yn uchelgeisiol ac yn gywrain'. Rhoddir cymorth i gymysgedd o ffilmiau byw, dogfennol ac wedi'u hanimeiddio sydd wedi'u harwain gan awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr wedi'u geni neu eu lleoli yng Nghymru. Bydd amcangyfrif o £1m yn cael ei ddyrannu i'r gweithgarwch hwn yn 2025-26.

**9.15** Mae £0.6m arall wedi cael ei glustnodi ar gyfer ail gylch cyllid cronfa datblygu i'r diwydiant gemau. Mae'r gronfa wedi'i dylunio i fodloni anghenion diwydiant gemau Cymru drwy ddarparu cyllid ychwanegol i dyfu a datblygu talent a sgiliau. Mae'r gronfa'n cynnig rhwng £50,000 a £150,000 i gwmnïau yng Nghymru sy'n datblygu cynnwys gemau er adloniant.

**9.16** Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid cyfalaf i gefnogi'r diwydiant cerddoriaeth. Mae'r Gronfa Gyfalaf Cerddoriaeth yn darparu cyllid i fusnesau bach a chanolig yn y diwydiant cerddoriaeth er mwyn iddynt wella cynaliadwyedd a rhagolygon masnachol y busnes; ac o ganlyniad, cyfrannu at ddatblygiad a thwf y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Bydd amcangyfrif o £0.4m yn cael ei ddyrannu rhwng y gweithgarwch hwn a chynlluniau cyfalaf eraill i gefnogi'r diwydiant cerddoriaeth.

**9.17** Byddwn yn cynnig cyllid datblygu yn 2025-26. Bydd y cyllid hwn wedi'i anelu at fusnesau yng Nghymru sy'n datblygu eiddo deallusol ar sail cynnwys i'w ryddhau'n fasnachol, ac mae'n cefnogi ymchwil a datblygu yn y diwydiannau creadigol yn uniongyrchol. Bydd hyn yn cefnogi prosiectau datblygu eiddo deallusol ym meysydd teledu, animeiddio masnachol, gemau fideo a thechnoleg ymgolli. Bydd tua £0.5m o gyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i'r gweithgarwch hwn. Bydd y cyllid yn helpu cwmnïau cynhyrchu cynhenid i ddatblygu prosiectau a chysyniadau yn llawn, gan wneud prosiect yn fwy tebygol o gael ei gomisiynu, ei gymeradwyo a'i gynhyrchu.

**9.18** Mae seilwaith stiwdios da yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnwys Stiwdios Seren Great Point (Gwynllŵg), Stiwdio Blaidd Cymru (Bae Caerdydd), Dragon Studios (Pencoed) a Stiwdios Aria (Ynys Môn). Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd prosiectau cyfalaf ar draws yr ystad stiwdios os byddant yn helpu'r diwydiant i dyfu. Bydd £0.5m yn cael ei ddyrannu i'r gweithgarwch hwn yn 2025-26.

**9.19** Bydd disgwyl i bawb sy'n cael cymorth gan Cymru Greadigol lynu wrth egwyddorion cynaliadwyedd a darparu tystiolaeth o arferion sy'n anelu at ddyfodol di-garbon a di-wastraff.

**9.20** Byddwn hefyd yn blaenoriaethu datblygiadau stiwdios sy'n cyrraedd y safonau cynaliadwyedd uchaf, gan gyd-fynd â'n gweledigaeth i ddatblygu pwynt gwerthu unigryw Cymru fel cyrchfan cynhyrchu cynaliadwy sydd gyda'r gorau yn y byd. Mae canfyddiadau'r adroddiad Screen New Deal (2022) yn cael eu defnyddio yng Nghymru drwy weithgarwch wedi'i arwain gan Cymru Greadigol a Media Cymru. Mae'r gweithgarwch yn cynnwys amrywiaeth o fentrau, fel cyflenwad tanwydd, arlwyo, a defnyddio cyd-drefnwyr cynaliadwyedd mewn cynyrchiadau.

## Chwaraeon

| | |
|---|---|
| Chwaraeon | Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol yn seilwaith chwaraeon Cymru, sydd gyda'r gorau yn y byd, yn gallu helpu cenedlaethau'r dyfodol i gymryd rhan mewn chwaraeon. |
| Llesiant Corfforol | Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith chwaraeon yn rhoi hwb i iechyd a llesiant |
| Chwaraeon | Bydd ein buddsoddiad yn yr ystad addysg yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden. |

**9.21** Mae cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymgysylltu â chwaraeon yn bwysig iawn i pobl Cymru. Mae cymryd rhan, rhagori a gwylio chwaraeon yn arwain at fanteision iechyd gwych, yn uno cymunedau, yn cyfrannu at ein hymdeimlad o le yn y byd ac yn chwarae rhan annatod yn ein heconomi.

**9.22** Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam ym mis Medi 2024 yn amcangyfrif bod chwaraeon yng Nghymru yn helpu i ddarparu £1.9bn mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ar gyfer economi Cymru, gan sicrhau 38,345 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Wrth edrych ar yr effaith ehangach, gan gynnwys yr effaith anuniongyrchol, mae'r ffigurau hynny'n cael eu cyfrifo fel £2.9bn a 58,997 o swyddi. Yn ogystal â bod yn sbardun economaidd, mae chwaraeon yn ymyriad iechyd effeithiol. Nododd astudiaeth arall gan Brifysgol Sheffield Hallam ddiwedd 2023, fudd iechyd o £621m drwy atal dros 113,000 achos o salwch. Amcangyfrifodd fod cyfanswm yr enillion cymdeithasol ar fuddsoddi mewn chwaraeon yng Nghymru yn £5.98bn y flwyddyn, sy'n golygu bod enillion o £4.44 i'r cyhoedd a'r Llywodraeth am bob £1 a fuddsoddir mewn chwaraeon.

**9.23** Bydd y £9.516m rydym yn ei ddyrannu i Chwaraeon Cymru yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 yn cael ei fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon presennol a newydd, gan gynnwys Caeau Glaswellt Artiffisial, i greu seilwaith chwaraeon modern sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol.

**9.24** Ar sail yr ymatebion gan dros draean o holl ymgeiswyr llwyddiannus y Grant Arbed Ynni yn 2022-23 a 2023-24, yr effaith gyfartalog yw arbediad cost i filiau ynni o £3,626 fesul clwb. Mae hefyd 3.9 tunnell o wrthbwyso carbon fesul ymgeisydd. Yn ystod y ddwy flynedd ariannol, bydd y buddsoddiad wedi arbed cyfanswm o £290,114 y flwyddyn i glybiau chwaraeon yng Nghymru, gyda gwrthbwyso carbon blynyddol o 313 tunnell. Mae'r arbedion hyn yn cael eu datblygu ymhellach drwy fuddsoddi mewn prosiectau eraill i leihau allyriadau carbon drwy baneli solar ac eitemau eraill sy'n arbed ynni. Bydd diogelu cyfleusterau lleol, yn ogystal â sefydlu asedau newydd a gwell mewn cymunedau lleol, hefyd yn lleihau'r angen am deithiau hirach mewn ceir i deuluoedd ac unigolion sydd eisiau manteisio ar gyfleoedd chwaraeon.

## Twristiaeth

| | |
|---|---|
| Y Gymraeg | Bydd ein cymorth cyfalaf i'r sectorau twristiaeth, digwyddiadau a chreadigol yn cefnogi ein targedau ar gyfer y Gymraeg. |
| Gweithgareddau Diwylliannol | Bydd y buddsoddiadau yn ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol yn gwneud y gorau o'u rôl o ran cefnogi'r diwydiant twristiaeth yn ein cymunedau |
| Gweithgareddau Diwylliannol | Bydd ein buddsoddiad mewn asedau treftadaeth yn adlewyrchu hanes unigryw Cymru, gan gydnabod gwerth cynhenid diogelu asedau o'r fath |

**9.25** Mae mwy i dwristiaeth yng Nghymru na bod yn un sector economaidd arall. Mae'n chwarae rôl hollbwysig yn hyrwyddo'r pethau sy'n ein gwneud yn unigryw – ein hiaith, ein diwylliant, ein tirweddau a'n treftadaeth. Yn ystod cyfnod pandemig Coronafirws, roedd galw mawr byrhoedlog gan ymwelwyr â'r DU am wyliau yng Nghymru, ond mae'r ffactor hwn wedi arafu wrth i deithio rhyngwladol ailagor. O ganlyniad i hynny, mae busnesau twristiaeth wedi wynebu heriau eraill sy'n deillio o gostau cynyddol, effaith pwysau costau byw ar ymwelwyr a ffactorau sy'n gysylltiedig â'r tywydd. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae achos cryf dros fuddsoddi yn y sector twristiaeth ac yn wir mae angen buddsoddiad parhaus i sicrhau bod ein cynnig yn cyd-fynd â lleoliadau eraill. Mae'r cynnyrch a'r segmentau sy'n perfformio orau (er enghraifft mordeithiau, a rhagwelir y bydd 2024 yn gweld y nifer uchaf erioed o longau a theithwyr yn ymweld â phorthladdoedd Cymru) yn dangos addewid clir ar gyfer y dyfodol. Mae ein strategaeth 'Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr' yn nodi ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau, a byddwn yn parhau i arwain ein buddsoddiad yn 2025-26. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaeth y Prif Weinidog ar gyfer Twf Gwyrdd a Swyddi.

**9.26** Mae ein cymorth cyfalaf ar gyfer twristiaeth yn canolbwyntio ar gefnogi rhaglenni a phrosiectau a fydd yn denu ymwelwyr i Gymru, yn gwella profiad ymwelwyr ac yn cynyddu manteision twristiaeth i gymunedau Cymru. Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn neilltuo £6.7m i gefnogi hyn.

**9.27** Bydd dau brif faes buddsoddi yn 2025-26: bydd rownd newydd o'n rhaglen gyfalaf Pethau Pwysig yn cefnogi Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol i wella seilwaith twristiaeth y cyhoedd. Yr ail faes fydd Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol sy'n cefnogi nifer fach o gynnyrch sy'n newid cyrchfannau. Ochr yn ochr â'r rhaglenni hyn, byddwn hefyd yn parhau i weithredu Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru ar y cyd â Banc Datblygu Cymru. Mae Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru yn darparu benthyciadau a chymorth grant ar y cyd i fusnesau twristiaeth o gronfa £50m a ariennir o gyfalaf trafodion ariannol.

**9.28** Mae ein cymorth i fusnesau yn y sector twristiaeth yn amodol ar yr un meini prawf asesu â'r holl gymorth arall i fusnesau, a rhaid dangos cysondeb â'n galwadau i weithredu yn ein contract economaidd. Mae angen prosiectau a gefnogir i gyflawni allbynnau Cymraeg ac mae prosiectau sy'n ymwneud ag adeiladau treftadaeth yn cael eu cynrychioli'n dda yn ein buddsoddiadau, gan sicrhau cyfraniad at Ganlyniadau Strategol WIIS.

# Pennod 10: Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Pysgodfeydd a Dyframaethu | 1,000 |
| Adnabod da byw a Thir Comin | 3,050 |
| Buddsoddi Gwledig | 75,152 |
| **Cyfanswm y Sector Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd** | **79,202** |

## Pysgodfeydd a Dyframaethu

| | |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | Byddwn yn cynnal ac yn gwella'r defnydd o'n hasedau amgylcheddol. |
| Cyflogaeth | Byddwn yn cryfhau ein cymorth strategol i fusnesau er mwyn sicrhau bod swyddi a bywoliaethau yn cael eu creu a'u diogelu. |
| Cynhyrchiant Busnesau | Bydd ein buddsoddiad strategol yn helpu busnesau yng Nghymru i fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau ac osgoi gwastraff diangen. |

**10.1** Mae Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru yn gynllun ariannu i gefnogi twf amgylcheddol ac economaidd gynaliadwy yn niwydiant bwyd môr Cymru ac annog cymunedau arfordirol Cymru i ffynnu. Mae'r cynllun yn cynnwys Rheoliadau, sylfaen polisi eang a chylchoedd ariannu cyfnodol sy'n targedu amcanion polisi penodol.

**10.2** Nod Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru yw rhoi cwmpas a hyblygrwydd i ni ddarparu cymorth ariannol dros ystod eang o feysydd pwnc yn y sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu yng Nghymru. Mae hyn yn caniatáu iddynt fuddsoddi'n strategol er budd hirdymor y sectorau, addasu i heriau a chyfleoedd tymor byr a chefnogi ein cynhyrchwyr bwyd môr, cymunedau arfordirol a'r amgylchedd morol i ffynnu gyda'i gilydd.

**10.3** Mae buddsoddi yng Nghynllun Môr a Physgodfeydd Cymru yn galluogi pysgodfeydd Cymru i barhau ag arferion cynaliadwy i sicrhau cadernid diwydiant pysgota Cymru a chynnal mantais gystadleuol yng nghyd-destun newydd y DU ac yn rhyngwladol ar yr un pryd.  Yn ogystal, y nod wrth gyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu yw gwreiddio ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn ac adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd ac ar ddiwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.

**10.4** Bydd Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru yn helpu i ategu'r gwaith o gyflawni'r dull strategol ar gyfer Cymru sy'n gosod cyfeiriad clir ar gyfer cyflawni gwaith rheoli swyddogaethau statudol a meysydd polisi â blaenoriaeth mewn modd cynaliadwy.  Yn ogystal, bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r polisïau yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS). Mae'r amcanion pysgodfeydd a'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy, sydd wrth wraidd ein dull o reoli pysgodfeydd, ac mae hyn yn cyd-fynd â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i

ymgymryd â datblygu cynaliadwy wrth gyflawni ein nodau llesiant a rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

**10.5** Mae buddsoddiad cyfalaf mewn systemau Rheoli a Gorfodi yn cefnogi pysgodfeydd Cymru i barhau ag arferion cynaliadwy i sicrhau cadernid diwydiant pysgota Cymru.

### Adnabod da byw a Thir Comin

| | |
|---|---|
| Cynhyrchiant Busnesau | Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith yn helpu busnesau yng Nghymru i fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau ac i osgoi gwastraff diangen |
| Cynhyrchiant Busnesau | Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol mewn cymunedau ledled Cymru i alluogi busnesau i elwa ar gysylltedd digidol cyflym a dibynadwy. |
| Bioamrywiaeth | Byddwn yn buddsoddi mewn rhwydweithiau ecolegol gwydn |
| Lles Meddyliol | Wrth fuddsoddi yn ein hasedau naturiol, byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y budd ehangach sydd iddynt o ran iechyd. |

**10.6** Mae systemau adnabod a symud da byw yn ddarnau hanfodol o seilwaith i gefnogi'r gwaith o atal a rheoli clefydau, sydd yn ei dro'n cefnogi iechyd y cyhoedd a hyder y cyhoedd. Yn ogystal, bydd systemau o'r fath hefyd yn caniatáu cydymffurfio â Rheoliadau Ewropeaidd, sy'n bwysig ar gyfer parhau i fasnachu â'r UE.

**10.7** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i greu system newydd o gymorth i ffermydd a fydd yn manteisio i'r eithaf ar bŵer natur i warchod drwy ffermio, a bydd system a gwasanaeth amlrywogaeth, sy'n cael ei ddarparu o dan system bresennol symud defaid Cymru, EIDCymru, yn galluogi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i olrhain symudiadau a rheoli data presenoldeb ar gyfer gwartheg, defaid a moch mewn system unedig.

**10.8** Bydd y cyfalaf a ddyrennir yng nghyllideb Ddrafft 2025-26 o £3.05m yn ariannu datblygiad parhaus system EIDCymru i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol ac yn galluogi'r diwygiadau polisi sy'n ofynnol. Y system hon fydd y system amlrywogaeth gyntaf o'i math yng Nghymru. Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i olrhain y symudiadau a rheoli data presenoldeb ar gyfer gwartheg, defaid a moch mewn system unedig.

**10.9** Mae'r rhaglen hefyd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â chefnogi ein hymateb i argyfyngau hinsawdd a natur gan y bydd y cynllun arfaethedig yn ariannu camau gweithredu i wella cynefinoedd a lleihau carbon. Y nod yw cefnogi ffermydd i fod yn gynhyrchiol mewn modd cynaliadwy, drwy wella effeithlonrwydd eu cynhyrchu gan ddefnyddio dulliau adrodd electronig a rheoli ffermydd Yr uchelgais polisi a chyflawni yw galluogi prosesau cofrestru a symud electronig di-bapur, ar gyfer pob da byw ar EIDCymru. Mae datgarboneiddio digidol yn gwella effeithlonrwydd, yn lleihau costau ac yn gyrru arloesedd i sicrhau llwyddiant. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbedion sylweddol o ran costau yn y tymor hwy.

## Buddsoddi Gwledig

| | |
|---|---|
| Unsustainable Consumption | We will support private businesses to invest in infrastructure to support a zero-waste economy |
| Employment | We will strengthen our strategic capital support for businesses to ensure that jobs and livelihoods are protected and created. |
| Biodiversity | We will invest in creating and enhancing Welsh woodlands |

**10.10** Rydym yn ymrwymedig i gefnogi amaethyddiaeth Cymru, perchnogion tir eraill a'r sector bwyd ehangach i ddiwallu amcanion economaidd, amgylcheddol, hinsawdd ac iechyd a lles anifeiliaid. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn gwneud ymrwymiad uniongyrchol i greu system newydd o gymorth i ffermydd a fydd yn manteisio i'r eithaf ar bŵer natur i warchod drwy ffermio, a'n Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gallai'r cymorth hwn gyfrannu at gyflawni ymrwymiadau ychwanegol y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys ein huchelgeisiau ym meysydd coedwigaeth a bioamrywiaeth.

**10.11** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 wedi dyrannu £75.152m i fuddsoddi mewn cymorth fferm a datblygu gwledig i ddarparu seilwaith a phrosesau allweddol i helpu i weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cynlluniau paratoi a mesurau opsiynol a chydweithredol. Bydd hyn yn cynnwys ffocws ar welliannau amgylcheddol, rheoli ar raddfa fferm, cynhyrchiant ac arallgyfeirio. Byddwn hefyd yn targedu rheoli tir ar raddfa tirwedd a chadwyni cyflenwi bwyd.

**10.12** O fewn y dyraniad hwn, caiff amrywiaeth o ffrydiau buddsoddi eu hariannu. Mae ein Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maetholion a'r Cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn darparu cymorth ar gyfer gwelliannau seilwaith fferm. Byddwn hefyd yn ariannu amrywiaeth o grantiau bach i roi cyfle i ffermwyr fuddsoddi mewn offer neu greu nodweddion newydd neu rai sy'n bodoli eisoes megis gwrychoedd, waliau cerrig ac ati; ac mae Cynllun Cynefin Cymru yn helpu i reoli cynefinoedd pwysig ar draws Cymru. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn Iechyd a Lles Anifeiliaid gan gynnwys cymorth i godi ymwybyddiaeth a gweithio tuag at ddileu TB buchol, y clafr a dolur rhydd firysol buchol a lleihau'r defnydd o feddyginiaethau milfeddygol i leihau ymwrthedd gwrthficrobaidd. Mae ein cynlluniau Creu Coetiroedd yn darparu cyllid cyfalaf i greu coetiroedd cynaliadwy ac mae'r cynllun Adfer Coetir yn cefnogi amnewid coetiroedd y mae clefyd yn effeithio arnynt. Mae'n cynnwys buddsoddi drwy'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Fawndiroedd a chynllun adnoddau naturiol integredig newydd i dreialu ffyrdd y gall ffermydd a rheolwyr tir eraill gydweithio i gyflawni prosiectau ar raddfa tirwedd.

# Pennod 11: Cymunedau

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Seilwaith Cymunedol | 21,500 |
| **Cyfanswm y Sector Cymunedau** | **21,500** |

## Seilwaith Cymunedol

| | |
|---|---|
| Lles Meddyliol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith cymunedol i wella canlyniadau iechyd meddwl a llesiant, a chydlyniant cymunedol. |
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi gwasanaethau cymunedol |
| Buddsoddi yng Nghymru | Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt. |
| Lles corfforol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy’n galluogi ein Gwasanaethau Tân ac Achub i barhau i ddiogelu bywyd a gwella diogelwch. |

**11.1** Mae buddsoddi mewn seilwaith cymunedol a seilwaith sy’n eiddo i’r gymuned yn ymwneud ag amrywiaeth eang o raglenni sy’n gweithio i adeiladu ar y gwerthoedd sydd mor bwysig inni fel gwlad, sef cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Mae ein buddsoddiadau mewn seilwaith cymunedol yn ein galluogi i barhau â'n partneriaeth gref â sefydliadau gwirfoddol ar draws ystod ein cyfrifoldebau. Rydym yn neilltuo £11.5m yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 i fuddsoddi mewn rhaglenni seilwaith allweddol. Mae hynny'n cynnwys ein Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol sy'n helpu gyda phrynu, datblygu a gwella cyfleusterau cymunedol lleol, er mwyn galluogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn lleol ac ailadeiladu cyfalaf cymdeithasol. Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gweithio ochr yn ochr â'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol, sy'n defnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol.

**11.2** Nod y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yw sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fenywod. Mae Rhaglen Grant Cyfalaf VAWDASV yn helpu sefydliadau statudol a gwirfoddol i weithredu prosiectau cyfalaf. Mae hyn yn cefnogi'r gwasanaethau presennol i ddioddefwyr ac yn helpu i ddarparu ymyrraeth ar gyfer atal cyflawnwyr. Mae hefyd yn cynnig offer diogelwch, a darpariaeth adnewyddu ac addasu er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cyllid llety gwasgaru yn gyfle i ddarparu adeiladau newydd, gan gynnwys mannau lloches amgen, gofod swyddfa i sefydliadau VAWDASV, ac ati.

**11.3** Gwyddom fod diffyg llety addas yn parhau i gael effaith negyddol ar fywydau pobl a chymunedau Teithwyr Sipsiwn a Roma. Rydym wedi neilltuo £3.44m yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 ar gyfer buddsoddi mewn 26 o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar draws Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn mynd i'r afael â'r angen hir-ddisgwyliedig hwn i greu safleoedd newydd a gwella safleoedd presennol. Mae hyn yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol o fewn Deddf Tai (Cymru) 2014, i ddarparu llety priodol, yn ogystal â helpu i ddatblygu mynediad cynaliadwy at gyfleustodau a gwasanaethau

priodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd preswyl yng Nghymru, gan sicrhau bod eu safleoedd yn addas ar gyfer eu diben, yn unol â'n Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**11.4** Hefyd, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn mynd i'r afael â thlodi bwyd trwy ddarparu cyllid cyfalaf i awdurdodau lleol ei ddosbarthu i sefydliadau bwyd cymunedol, er mwyn gweithredu darpariaeth cymorth bwyd gynaliadwy a chadarn, ac rydym wedi neilltuo £1.3m ar gyfer y diben hwnnw yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26.

**11.5** Hefyd mae mesurau diogelwch cymunedol hanfodol y mae angen eu cyflawni drwy osod mesurau diogelwch tân yn y cartref yn y cartrefi hynny sydd fwyaf mewn perygl o dân, a thrwy wella Gallu Cydnerthedd Cenedlaethol ein Gwasanaethau Tân ac Achub.  Byddwn yn buddsoddi mewn asedau a seilwaith arbenigol sy'n galluogi  gwaith Rhwydwaith Gwasanaethau Brys y DU gyfan, ac sy'n sefydlu, gwella a newid set o gerbydau ac offer arbenigol i Gymru gyfan, er mwyn darparu ymateb cyflym ac effeithiol i drychinebau mawr.

# Pennod 12: Llywodraeth Leol

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Leol | 230,000 |
| **Cyfanswm y Sector Llywodraeth Leol** | **230,000** |

## Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Cyflawni – gweithio gyda phartneriaid | Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid Llywodraeth Leol o ran ymgysylltu gwleidyddol a swyddogol, a dulliau cyllido, i sicrhau manteision ein buddsoddiad |
| Defnydd Anghynaliadwy | Byddwn yn cefnogi cyrff cyhoeddus i fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi economi ddiwastraff |
| Buddsoddi yng Nghymru | Wrth fuddsoddi'n strategol yn ein rhaglenni adfywio, byddwn yn sicrhau bod agwedd Cymru gyfan yn cael ei mabwysiadu. |

**12.1** Mae llawer o'r buddsoddiadau mewn seilwaith a nodir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn cael eu cyflawni drwy ein partneriaid yn yr awdurdodau lleol, ac yn cael eu cyd-ariannu ganddynt – er enghraifft, ein rhaglen rheoli perygl llifogydd ac arfordirol a'n hagenda eang i drawsnewid trefi. Mae gan lywodraeth leol rôl hollbwysig i'w chwarae hefyd o ran penderfynu a darparu seilwaith sy'n galluogi gwasanaethau i gael eu darparu'n lleol, ond mae hefyd yn cyfrannu at yr uchelgeisiau mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn eu gosod ar gyfer seilwaith ledled Cymru.

**12.2** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn nodi £230m o Gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Leol (£111.2m), cymorth grant ar gyfer datgarboneiddio ystad llywodraeth leol (£30m) a benthyca â chymorth (£88.8m). Mae'r cyllid cyfalaf uniongyrchol – gan gynnwys cefnogi defnyddio pwerau benthyca – yn cefnogi capasiti awdurdodau i gael arian cyfatebol ar gyfer prosiectau maent yn eu harwain o fewn rhaglenni cenedlaethol – er enghraifft buddsoddi mewn seilwaith newydd a gwell i ysgolion, yn ogystal â chefnogi eu blaenoriaethau a'u huchelgeisiau lleol eu hunain.

**12.3** Ar hyn o bryd, mae ymgynghorwyr yn edrych ar gynllun gweithredu pob awdurdod lleol ar gyfer datgarboneiddio, ac mae adnodd allyriadau carbon wedi cael ei ddarparu i bob corff cyhoeddus i ddatblygu gwaelodlin allyriadau carbon ac i fonitro'n barhaus. Mae canllawiau ac offer i helpu awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio wedi cael eu cyflwyno. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r awdurdodau eu hunain ar ddatgarboneiddio, newid hinsawdd ac addasu drwy'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol.

# Pennod 13: Llifogydd a Dŵr

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd | 39,806 |
| Rheoleiddio Cronfeydd Dŵr a Diwygio Diogelwch Cronfeydd Dŵr (gan gynnwys Cronfeydd Dŵr Amddifad) | 4,900 |
| Ansawdd Dŵr | 18,021 |
| **Flood and Water Sector Total** | **62,727** |

## Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd

| | |
|---|---|
| Llesiant Corfforol | Bydd ein buddsoddiadau atal llifogydd yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl |
| Llesiant Meddyliol | Bydd ein buddsoddiadau rheoli perygl llifogydd yn atal neu'n lliniaru llifogydd, gan leihau'r effeithiau cysylltiedig ar iechyd meddwl |
| Cynhyrchiant Busnesau | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith rheoli llifogydd i ddiogelu buddiannau economaidd busnesau yng Nghymru. |
| Ansawdd Aer a Dŵr | Bydd ein buddsoddiadau mewn amddiffyn rhag llifogydd yn hyrwyddo defnyddio dulliau Rheoli Llifogydd yn Naturiol. |

**13.1** Gwyddom fod newid hinsawdd yn debygol o gynyddu'r perygl o lifogydd yn ein cymunedau, oherwydd bod lefel y môr yn codi a hefyd oherwydd stormydd mwy dwys a rheolaidd. Mae angen inni barhau i fuddsoddi i ymestyn ac i wella ein seilwaith amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir er mwyn amddiffyn y rhai sydd fwyaf mewn perygl. Rhaid i ni hefyd barhau i adeiladu ein hymyriadau gan ddefnyddio atebion ar sail natur i liniaru dŵr ffo.

**13.2** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i ariannu mesurau amddiffyn rhag llifogydd ychwanegol ar gyfer dros 45,000 o gartrefi erbyn diwedd tymor presennol y Senedd, yn ogystal â darparu atebion rheoli sy'n seiliedig ar natur yn nalgylchoedd pob prif afon, gan ehangu cynefinoedd gwlyptir a choetir. O ystyried y risg gynyddol o lifogydd sydyn, mae hi'n bwysig ein bod yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd gwell a mwy cynaliadwy o reoli dŵr ffo, yn aml mewn mannau lle nad oedd perygl mawr yn draddodiadol, sy'n cael eu heffeithio fwyfwy gan ddigwyddiadau o'r fath. Mae'r gofynion am fesurau draenio cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd yn gyfraniad pwysig at ddiogelu cymunedau at y dyfodol.

**13.3** Rydym wedi dyrannu £36m yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. £12m i gefnogi awdurdodau lleol a £22 i Cyfoeth Naturiol Cymru – ein Hawdurdodau Rheoli Perygl - i ymateb i'r perygl uwch o lifogydd. Mae'r £2m sy'n weddill yn cael ei ddyrannu i reoli llifogydd yn naturiol. Bydd buddsoddiad hyd yma yn ystod tymor y Senedd hon yn darparu neu'n gwella amddiffyniad i 25,000 – 35,000 o gartrefi. Ar ben hynny, bydd y rhaglen refeniw llifogydd yn cefnogi buddsoddiad cyfalaf drwy awdurdodau lleol drwy'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol, sy'n galluogi buddsoddiad o £290m. Drwy'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol byddwn yn ceisio lleihau'r perygl i fwy na 14,000 eiddo ar hyd arfordir Cymru.

**13.4** Mae'r Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 yn nodi'r rheidrwydd i fuddsoddi mewn addasu i'r hinsawdd ac yn ceisio cynllunio ar gyfer a rheoli'r peryglon sy'n deillio o batrymau hinsawdd a thywydd. Er bod y gwaith sy'n cael ei wneud o dan ein rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn aml yn cynnwys prosiectau adeiladu sylweddol, mae ein Canllawiau ar Achosion Busnes Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn mynnu bod ein Hawdurdodau Rheoli Perygl yn ystyried defnyddio atebion rheoli llifogydd yn naturiol wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer asedau newydd a chynnal a chadw.

### Rheoleiddio Cronfeydd Dŵr a Diwygio Diogelwch Cronfeydd Dŵr (gan gynnwys Cronfeydd Dŵr Amddifad)

| | |
|---|---|
| Ansawdd Aer a Dŵr | Lle bo angen, byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni adfer seilwaith. |

**13.5** Mae cynnal a chadw cronfeydd dŵr yn hollbwysig o ystyried eu bygythiad posibl mewn digwyddiad llifogydd, lle gallai cwymp atgyfnerthiadau diogelwch arwain at effeithiau trychinebus, fel llifogydd mewn cymunedau a chartrefi lleol. Mae newid hinsawdd bron yn sicr yn golygu mwy o berygl o ddifrod i seilwaith a/neu gwymp seilwaith heb archwilio, cynnal a chadw ac uwchraddio seilwaith yn barhaus a/neu leihau'r perygl cyffredinol drwy ddraenio cronfeydd dŵr a chael gwared ar seilwaith sy'n agored i niwed.

**13.6** Mae cydymffurfio â'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr yn ofyniad cyfreithiol sy'n ymwneud â chronfeydd dŵr sy'n berchen i Lywodraeth Cymru. Mae buddsoddi mewn rhaglenni cronfeydd dŵr, rheoli ac adfer yn cael ei gyflawni drwy Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gwneud gwaith diogelwch cronfeydd dŵr i leihau'r bygythiad i ddiogelwch y cyhoedd ac i sicrhau cydymffurfiad rheoleiddiol.

**13.7** Mae Cronfeydd Dŵr Amddifad yn golygu bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gorfod camu i mewn gyda chronfa ddŵr breifat, lle nad oes perchennog / person sy'n gyfrifol fel perchennog cyfreithiol, ond mae angen gwaith sy'n hanfodol i ddiogelwch er mwyn osgoi trychineb. Er budd diogelwch y cyhoedd, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymyrryd fel Rheoleiddiwr, mewn senario untro i sicrhau bod y cronfeydd dŵr hyn yn cael eu diogelu.

**13.8** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 wedi dyrannu £4.9m i'r maes buddsoddi hwn i gynnal a chadw ac i uwchraddio seilwaith i leihau'r perygl y bydd y cronfeydd dŵr hyn yn gorlifo ac yn bygwth lles pobl.

### Ansawdd Dŵr

| | |
|---|---|
| Ansawdd Aer a Dŵr | Lle bo angen, byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni adfer seilwaith. |
| Ansawdd Aer a Dŵr | Bydd ein buddsoddiadau mewn amddiffyn rhag llifogydd yn hyrwyddo defnyddio dulliau Rheoli Llifogydd yn Naturiol. |
| Bioamrywiaeth | Pan fydd ein buddsoddiadau hanfodol mewn seilwaith yn cael effaith anorfod ar fioamrywiaeth a'n hamgylchedd naturiol, byddwn yn buddsoddi mewn mesurau gwrthbwyso i leihau a lliniaru'r effeithiau hynny. |

**13.9** Rydym yn gwybod bod mwy o boblogaeth ac effeithiau newid hinsawdd, er enghraifft glawiad dwysach, yn debygol o roi mwy o bwysau ar ein systemau dŵr gwastraff a charthffosiaeth. Gallai hyn arwain at ddirywiad mewn ansawdd dŵr. Mae gan 44% o afonydd Cymru statws ecolegol da, ac mae angen gweithio i wella'r sefyllfa hon. Ochr yn ochr â dyletswyddau statudol i wella ansawdd dŵr, gall buddsoddiad cyfalaf chwarae rôl alluogi wrth fynd i'r afael â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys dechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, gan gryfhau'r drefn o fonitro ansawdd dŵr.

**13.10** Bydd y £18.021m a ddyrannwyd drwy Gyllideb Ddrafft 2025-26 yn caniatáu inni gyflawni ein dyletswyddau statudol i wella ansawdd dŵr, gyda gwaith yn canolbwyntio ar amrywiaeth o ymyriadau.

**13.11** Bydd y buddsoddiad yn cefnogi gwaith sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a gwella ansawdd dŵr gan gynnwys gwneud gwelliannau i atal erydu afonydd a chreu cynefinoedd, adfer mwyngloddiau metel (atal dymchwel, cynlluniau trin a dargyfeirio cyrsiau dŵr), gwella pysgodfeydd (cael gwared ar rwystrau i fudo ac ailgyflwyno gwelyau graean i wella ardaloedd deori). Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn gwneud y gwaith yma.

**13.12** Bydd y buddsoddiad hefyd yn ariannu rhaglenni ansawdd dŵr sydd â'r nod o gael gwared â sylweddau sy'n llygru o ddyfrffyrdd ac o dir lle gallant ddiferu i mewn i ddyfrffyrdd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thirfeddianwyr i atal sylweddau sy'n llygru fel nitradau, ffosffadau a gwastraff anifeiliaid rhag diferu i mewn i ddyfrffyrdd (dyma un o'r prif bethau sy'n achosi ansawdd dŵr gwael). Bydd buddsoddi yn y maes hwn hefyd yn galluogi cynlluniau adfer afonydd yn ogystal â ffocws ar astudiaethau peilot dŵr ymdrochi.

**13.13** Bydd cydweithio â'r sector rheoli llifogydd yn ein galluogi i gyflwyno cynlluniau rheoli dalgylchoedd, a Rheoli Llifogydd Naturiol yn effeithiol. Ochr yn ochr â helpu i warchod bioamrywiaeth leol, gallai technegau rheoli llifogydd sy'n lleihau'r angen am seilwaith adeiledig traddodiadol leihau'r carbon sydd wedi'i wreiddio yn y buddsoddiadau hynny mewn seilwaith. Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr a'r rheoleiddiwr i sicrhau bod cynigion buddsoddi penodol yn cynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth a sero net yn ogystal ag ansawdd dŵr.

# Pennod 14: Addysg

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Seilwaith Addysg | 372,299 |
| **Cyfanswm y Sector Addysg** | **372,299** |

## Seilwaith Addysg

| | |
|---|---|
| Canlyniadau Addysgol | Bydd ein buddsoddiadau yn ein hystad addysg yn codi safonau llety a thechnoleg i alluogi dysgwyr i wireddu eu llawn botensial |
| Canlyniadau Addysgol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi'r sector Addysg Uwch |
| Incwm Aelwydydd | Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith addysg a'r blynyddoedd cynnar yn helpu rhieni sy'n gweithio i gynyddu incwm aelwydydd |
| Incwm Aelwydydd | Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith sefydliadau angori lleol yn galluogi buddsoddiad o ansawdd uchel gan y sector preifat |
| Datgarboneiddio | Wrth ddatblygu pob cynnig seilwaith, rhaid i'n hymateb ymgorffori ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur |
| Llesiant Meddyliol | Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn ein hystad addysg yn cael eu dylunio i sicrhau buddion iechyd meddwl ochr yn ochr â chyrhaeddiad addysgol |
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith addysg yn helpu plant a theuluoedd i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd |
| Anghydraddoldebau Cymdeithasol | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi gwasanaethau cymunedol |
| Y Gymraeg | Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi rôl y sectorau Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar yn hybu'r Gymraeg |

**14.1** Bydd darparu adeiladau addysg modern, sy'n addas i'r diben ac yn barod ar gyfer y genhedlaeth ddigidol yn helpu i gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru, er mwyn i'n plant a'n pobl ifanc yng Nghymru gael y cyfleoedd a'r cymorth gorau mewn bywyd i'w galluogi i ffynnu er budd Cymru yn y dyfodol.

**14.2** Mae Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, ein rhaglen buddsoddi mewn ysgolion a cholegau, wedi'i sefydlu'n dda. Mae'n rhaglen cyfalaf trawsbynciol sy'n cynnwys ffrydiau buddsoddi penodol fel adeiladau newydd, estyniadau ac adnewyddu ysgolion a cholegau sydd mewn cyflwr gwael, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Ysgolion Bro, a buddsoddiad cyfalaf ehangach yn yr ystad addysg. Mae effaith y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn ymestyn o ddarpariaeth Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar i addysg i oedolion a sefydliadau Addysg Uwch.

**14.3** Rydyn ni wedi buddsoddi £3.7bn mewn ysgolion a cholegau ers 2014. Roedd y cyfnod ariannu cyntaf (2014-2019) wedi cyflenwi 173 o ysgolion newydd ac ysgolion wedi'u hadnewyddu ledled Cymru, ac wedi gwella'r amgylchedd dysgu i dros 100,000 o ddisgyblion. Bydd y cyfnod ariannu nesaf, hyd diwedd mis Mawrth 2025, yn cyflenwi 129 yn rhagor o brosiectau adeiladu/adnewyddu ysgolion a cholegau ledled Cymru, gan helpu ein plant a'n pobl ifanc i gyflawni eu nodau.

**14.4** Cafodd rhaglen dreigl uchelgeisiol o waith dros naw mlynedd ei gyfrifyddu'n ddiweddar fel rhan o gynlluniau'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae Cynlluniau Amlinellol Strategol wedi cael eu cyflwyno gan awdurdodau lleol a cholegau, ac mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi'u cymeradwyo. Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys bron i 300 o brosiectau newydd ar draws yr ystad addysg. Mae £372.299m ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r ardal fuddsoddi hwn yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 i gefnogi'r llif y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

**14.5** Mae'r holl brosiectau adeiladau newydd, estyniadau ac adnewyddiadau mawr yn y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael eu hadeiladu i safonau Rhagorol BREEAM ar gyfer yr amgylchedd a chynaliadwyedd, rhaid iddynt fod yn rhai Carbon Sero Net ar ôl agor, a rhaid iddynt gyrraedd y targedau ar gyfer lleihau carbon corfforedig; mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau i greu a gwella cynefinoedd hefyd. Mae'r cynefinoedd hyn yn creu neu'n gwella dalfeydd carbon fel coetiroedd bach a dolau, sy'n helpu i leihau llygredd aer ac i ddal carbon.

**14.6** Erbyn diwedd yr ail gyfnod ariannu (mis Mawrth 2025), bydd amcangyfrif o 190,000 t/CO2e (dros linell sylfaen y Rhaglen, sef safon 'Rhagorol' BREEAM) o allyriadau carbon wedi'u harbed o ganlyniad uniongyrchol i raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn mynnu sero net ar ôl agor o 1 Ionawr 2022 ymlaen. Mae'n debygol y bydd llawer mwy yn cael ei arbed oherwydd bydd gwaith llai wedi'i ariannu, gan gynnwys cynnal a chadw cyfalaf, hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar leihau allyriadau carbon a'r costau refeniw cyfleustodau cysylltiedig i ysgolion a cholegau.

# Pennod 15: Gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru

| Ardal Fuddsoddi | 2025-26 (£,000) |
|---|---|
| Costau Rhedeg Canolog a Buddsoddiad Cyfalaf | 15,611 |
| Cyrff eraill | 2,600 |
| **Cyfanswm y Sector Gweinyddu Llywodraeth Cymru** | **18,211** |

## Costau Rhedeg Canolog a Buddsoddiad Cyfalaf

| | |
|---|---|
| Datgarboneiddio | Bydd ein buddsoddiadau mewn eiddo masnachol yn cefnogi gostyngiad mewn allyriadau carbon |
| Buddsoddi yng Nghymru | Bydd ein buddsoddiadau mewn eiddo masnachol yn arwain at fanteision dull gweithredu i gymunedau sy'n rhoi canol trefi yn gyntaf |

**15.1** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn dyrannu £15.611m i'n sector gweinyddol, sy'n cynnwys buddsoddiadau cyfalaf yn Ystad Llywodraeth Cymru, gallu TGCh a gweithgareddau gweithredol eraill, yn ogystal â'n Ystadau Cymru ar y cyd. Bydd y buddsoddiad hwn yn ein galluogi i wneud ein gwaith mewn ffordd sy'n fwy effeithlon ac effeithiol, gan sicrhau bod ein hadrannau'n gallu cyflawni ein hymrwymiadau statudol a'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu er budd y wlad yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

**15.2** Yn ogystal â sicrhau gwerth am arian, bydd ein Strategaeth Gweithle'r Dyfodol yn helpu ein ffyniant cymdeithasol, economaidd a chenedlaethol ehangach gan sicrhau presenoldeb Llywodraeth Cymru ym mhob rhan o Gymru.

**15.3** Bydd adferiad economaidd a llesiant cymunedau wrth galon penderfyniadau sy'n seiliedig ar leoliadau yn y dyfodol. Bydd cynlluniau'n ystyried yr holl gyfleoedd ar y cyd i rannu gofod â chyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**15.4** Byddwn yn parhau â'n hymdrechion parhaus i ddatgarboneiddio ystad swyddfeydd gweinyddol Llywodraeth Cymru. Erbyn 1 Ebrill 2023, roedd gostyngiad o 82% mewn allyriadau carbon wedi cael ei gyflawni gan roi cyfanswm ôl troed carbon diwygiedig am ddefnyddio gwasanaethau yn yr ystad o 2,275 tCO2. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad sylweddol cyffredinol o 10,287 tunnell yng nghyfanswm yr allyriadau CO2 ers 2010-21.

**15.5** Yn ogystal â hyn, rydym wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau carbon sero net ar draws yr ystad gyhoeddus erbyn 2030. Roedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Ystadau Cymru er mwyn galluogi a dylanwadu ar reoli asedau ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Bydd ein cyllid parhaus yn golygu y bydd yn gallu datblygu ei nodau o gefnogi a dylanwadu ar gydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi gweithwyr ystadau proffesiynol allanol i gyflawni yn erbyn y nod o ddatgarboneiddio Ystad y Sector Cyhoeddus.

**15.6** Byddwn yn cadw'r elfen o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed sy'n cefnogi cynlluniau lleihau carbon i fuddsoddi mewn byrddau iechyd a llywodraeth leol i helpu'r sector cyhoeddus i gyfrannu at ein targedau carbon sero net. Y canlyniadau yw lefelau is o CO2 a chynhyrchu arbedion sy'n rhyddhau arian parod oherwydd bod costau ynni'r sefydliadau'n is.

## Cyrff Eraill

**15.7** Gwneir ein dyraniadau Cyllidebol i adrannau er mwyn iddynt ymgymryd ag ystod eang o swyddogaethau. Mewn rhai achosion bydd ein hadrannau'n trosglwyddo cyfran o'u dyraniad yn y maes buddoddi ehangach i'w cyrff cysylltiedig, ond mewn rhai achosion rydym yn gwneud dyraniadau penodol drwy Gyllideb Ddrafft 2025-26.

**15.8** Mae'r cyrff hyn yn ymgymryd â swyddogaethau amrywiol. Maent yn darparu arbenigedd a phrofiad mewn meysydd arbenigol, ac maent yn bartneriaid gwerthfawr sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at lawer o gynlluniau a rhaglenni strategol Llywodraeth Cymru, ac yn cynnig her drwy graffu. Mae Cyllideb Ddrafft 2024-26 yn nodi tair blynedd o gyllid cyfalaf £2.6, i gefnogi'r gwaith cyflawni hwn.

**15.9** Er mai cymharol fach yw symiau'r dyraniadau cyfalaf a wnaed, maent yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau hanfodol i bobl Cymru gan ddefnyddio arbenigedd na fyddai ar gael mewn ffyrdd eraill.

## Atodiad

| | Sector | Ardal Fuddsoddi | Llesiant Amgylcheddol | | | | Llesiant Cymdeithasol | | | | Llesiant Economaidd | | | | Llesiant Diwylliannol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 1 | Tai | Tai Cymdeithasol | x | | | x | | | x | | | | | | | | | x |
| 2 | | Detgarboneiddio Cartrefi Cymru | x | | | | | | x | | | | | | | | | |
| 3 | | Diolgelwch Adeiladau | | | | | x | x | x | | | | | | | | | |
| 4 | | Cronfa Tai â Gofal ac Addasiadau | | | | | x | | x | | | | | | | | | x |
| 5 | | Cymorth Prynu | | | | | | | x | | | | | | | | | x |
| 6 | | Tai’r Farchnad Agored | | | | | | | x | | | | | | | | | x |
| 7 | | Y Sector Rhentu Preifat | x | | | | | | x | | | | | | | | | x |
| 8 | Trafnidiaeth | Trafnidiaeth Ranbarthol | x | | | | | | | x | x | | | | | | | |
| 9 | | Rheilffyrdd | x | | | | | | | | x | x | | | x | | | |
| 10 | | Bysiau | x | | | | | | | x | x | x | | | | | | |
| 11 | | Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | | x | | | x | | | | x | | | | | | | |
| 12 | Adfywio | Trawsnewid Canol Trefi | | x | | | | | | x | x | | | | | | | x |
| 13 | | Diogelwch Tomenni Glo | | | x | | x | | | | | | | | | | | |
| 14 | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Seilwaith ac Offer GIG Cymru | x | | | | x | x | | | | | x | | | | | |
| 15 | | Seilwaith Gofal Sylfaenol a Chymunedol | x | | | | x | x | | | | | | | | | | |
| 16 | | Digidol yn GIG Cymru a gofal cymdeithasol | x | | | | x | x | | | | | | | | | | |
| 17 | Datgarboneiddio | Tlodi Tanwydd | x | | | | | | x | | | | x | | | | | |
| 18 | | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Byw'n Glyfar | x | | | | | | | | | | x | | | | | |
| 19 | | Ynni Lleol | x | | | | | | | | | | x | | | | | |
| 20 | NAtur a’r Amgylchedd | Bioamrywiaeth | | x | | | | x | | | | | | | | | | |
| 21 | | Grantiau Amgylcheddol | | x | | | | | x | | | | | | | | | |
| 22 | | Tirwedd a Hamdden Awyr Agored | | x | | | | | | | | | | | | | x | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | | Strategaeth Ddiwydiannol Pren a Choedwig Genedlaethol | x | x | x | | | | | | | | | | | | x | |
| 24 | | Ansawdd Aer | | | x | | | | | | | | | | | | | |
| 25 | Datblygu Economaidd | Cymorth Busnes | x | | | x | | | x | | x | | x | | | | | |
| 26 | | Cymorth Busnes | | | | | | | | x | | x | | | | x | | |
| 27 | | Y Cymoedd Technoleg | x | | | | | | x | x | | x | | | | | | |
| 28 | | Seilwaith Eiddo | | | | | | | | | x | x | | | | | | x |
| 29 | | Seilwaith Strategol | | | | | | | | x | x | x | | | | | | |
| 30 | | Gwyddoniaeth ac Arloesi | x | | | x | | | | | | x | | | | | | |
| 31 | | Economi Gylchol | | | x | x | | | | x | | | | | | | | |
| 32 | | Bargeinion Dinesig a Thwf | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 33 | | Banc Datblygu Cymru | | | | | | | | | x | x | | | | | | |
| 34 | Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon | Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth | | | | | | | | | | | | | | x | | |
| 35 | | Cadw | | | | | | x | | | | | | | | x | | |
| 36 | | Creadigol | | | | | | | | | | x | | | x | | | |
| 37 | | Chwaraeon | | | | | x | | | | | | | | | | x | |
| 38 | | Twristiaeth | | | | | | | | | | x | x | x | x | x | | |
| 39 | Addysg | Seilwaith Addysg | x | | | | | x | x | | | | | x | | | | |
| 40 | Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd | Adnabod da byw a Thir Comin | | x | | | | x | | | | x | | | | | | |
| 41 | | Buddsoddi Gwledig | | x | x | x | | | | | x | x | | | | | | |
| 42 | | Pysgodfeydd a Dyframaethu | | x | | | | | | | x | x | | | | | | |
| 43 | Cymunedau | Seilwaith Cymunedol | | | | | x | x | x | | | | | | | | | x |
| 44 | Llywodraeth Leol | Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Leol | | | | x | | | | | | | | | | | | x |
| 45 | Llifogydd a Dŵr | Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd | | | x | | x | x | | | | x | | | | | | |
| 46 | | Rheoleiddio Cronfeydd Dŵr a Diwygio Diogelwch Cronfeydd Dŵr (gan | | x | | | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gynnwys Cronfeydd Dŵr Amddifad) | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 47 | | Ansawdd Dŵr | | **x** | **x** | | | | | | | | | | | | | |
| 48 | Gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru | Costau Rhedeg Canolog a Buddsoddiad Cyfalaf | **x** | | | | | | | | | | | | | | | **x** |